

Cynllun Datblygu Lleol Conwy i'w Archwilio Gan y Cyhoedd 2007 – 2022 (Argraffiad Diwygiedig 2011)



PAPUR CEFNDIR 33 DIWYGIEDIG - CYFLWYNO

Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Awst 2012

Gellir gweld a lawrlwytho'r ddogfen hon ar wefan y Cyngor ar: www.conwy.gov.uk/cdli. Mae copïau hefyd ar gael yn y prif lyfrgelloedd ac yn swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio, 26 Castle Street, Conwy LL32 8AY neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r ddogfen hon a fydddech gystal â chysylltu â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575181 / 575124 / 575445 / 575447.

Os hoffech gael rhan neu grynoded o'r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd parti; a Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordians.

Cynnwys

	Tudalen
1. Rhagarweiniad.....	4
1.1 Trosolwg.....	4
1.2 Diweddariad i'r Papur Cefndir	4
2. Yr Iaith Gymraeg yng Nghonwy.....	5
2.1 Trosolwg.....	5
3. Cynllunio a'r Iaith Gymraeg.....	7
3.1 Polisi a Chanllawiau Cenedlaethol.....	7
3.2 Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: y Ffordd Ymlaen.....	8
4. Cynllunio a'r Iaith Gymraeg yng Nghonwy	10
4.1 Polisi Cynllunio Cyfredol yng Nghonwy.....	10
5. Yr Iaith Gymraeg a CDLI Conwy	11
5.1 Cyflwyniad.....	11
5.2 Cynllun Cynnwys y Gymuned	12
5.3 Sylfaen Dystiolaeth	12
5.4 Materion, Gweledigaeth ac Amcanion y CDLI.....	17
5.5 Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol.....	18
5.6 Strategaeth Ffaffriedig CDLI Conwy	18
5.7 CDLI Diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd.....	19
6. Monitro	25
6.1 Monitro'r CDLI.....	25
6.2 Monitro Polisi CTH/5	26
Atodiad 1 – Asesiad o Effaith Gymunedol ac Ieithyddol CDLI Conwy	27
Atodiad 2 – Rhestr o Gyfeiriadau a Gwybodaeth Bellach	65
Atodiad 3 – Rhestr o Ddangosyddion Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (wedi'u copïo o adroddiad Ymchwil Gorfforaethol MALIC).	68

1. Rhagarweiniad

1.1 Trosolwg

1.1.1 Mae'r papur cefndir hwn yn un o nifer sy'n cyd-fynd â'r ddogfen Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) i'w Archwilio gan y Cyhoedd ddiwygiedig ar gyfer Conwy. Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi ei CDLI, rhaid iddo esbonio sut ffurfiwyd y polisi perthnasol ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i'r Cyngor ar y pryd. Mae'r papur cefndir (BP) hwn yn cynnig tystiolaeth a chyfiawnhad am y dull polisi yn y CDLI sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a gofynion y polisi.

1.1.2 Dylai'r papur hwn gael ei ddarllen ochr yn ochr â'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) CDLI6: 'Yr Iaith Gymraeg' sy'n cynnwys canllawiau a meini prawf asesu.

1.1.3 Paratowyd y dystiolaeth gefndir ar gyfer polisi cynllunio'r Cyngor mewn perthynas â'r iaith Gymraeg gyda chyfarwyddyd a chymorth Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Comisiynydd y Gymraeg bellach), Menter Iaith Conwy a Swyddog Datblygu Iaith Gymraeg y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi cysylltu ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chynghorau Ynys Môn a Gwynedd hefyd i gynorthwyo wrth baratoi'r gwaith hwn a'r CCA sy'n cyd-fynd ag ef.

1.2 Diweddariad i'r Papur Cefndir

1.2.1 Cafodd y Papur Cefndir ei ddiwygio yn dilyn ymgynghori ynghylch y CDLI diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd, yn dilyn sylwadau a gafwyd a thrafodaeth gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Menter Iaith Conwy. Mae'r prif newidiadau wedi golygu cysoni'r gwaith yn fwy â chanllawiau yn y ddogfen Cynllunio a'r iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005) a'r diwygiad drafft i Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r iaith Gymraeg. Cynhaliwyd astudiaeth hefyd i ganfod pwy sy'n byw mewn anheddau newydd yn ardal y Cynllun, y mae ei chanlyniadau'n sail i atodiad un wrth y papur hwn (mae'r astudiaeth yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cyflwyno'r CDLI ac mae ar gael ar wefan y CDLI). O ganlyniad i'r diwygiadau hyn, mae polisi CTH/5 wedi cael ei ddiwygio hefyd i'w gwneud yn glir nad yw'r egwyddor datblygu'n fater i'w asesu'n ddiweddarach ar y cam pan gyflwynir cais cynllunio.

2. Yr Iaith Gymraeg yng Nghonwy

2.1 Trosolwg

2.1.1 Mae'r iaith Gymraeg yn rhan o ffabrig cymdeithasol a diwylliant Cymru. Caiff ei siarad gan 20.8% o'r boblogaeth, gydag amrywiadau sylweddol ar draws y wlad o ran niferoedd cyffredinol a chyfrannau'r boblogaeth.

2.1.2 Yr un modd â rhannau helaeth o Gymru, mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy wedi dirywio rhwng pob cyfrifiad (diagram 1). Ym 1981, roedd 33% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, o gymharu â 29.2% yn 2001. Ac eto, cododd nifer gyffredinol y siaradwyr Cymraeg ychydig o 30078 ym 1981 i 31042 yn 2001 (yn erbyn twf cyffredinol yn y boblogaeth 3 oed neu'n hŷn o 91863 i 106316).

2.1.3 O'r 30 Cyngor Tref a Chymuned yn ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol (hynny yw, heb fod o fewn ffin y Parc Cenedlaethol yn gyfan), cofnododd 27 ddirywiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o 1981-2001. Dim ond Llandudno, Llandrillo-yn-Rhos a Thywyn a Bae Cinmel gofnododd godiadau ymylol o oddeutu 2% yr un.




Diagram 1 – Siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy, 1981 (ar y chwith) a 2001 (ar y dde)

- 2.1.4 Mae'n bwysig nodi yn y 27 ardal a chanddynt ddirywiad mewn siaradwyr Cymraeg, dirywiodd 7 ardal yn gymesur ond gwnaethant gynyddu yn niferoedd cyffredinol y siaradwyr Cymraeg. Mae'r rhain yn tueddu i fod mewn ardaloedd trefol, sy'n dynodi codiadau yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg ond mae'r codiadau islaw cyfradd y cynnydd yn y boblogaeth. Cofnododd llawer o'r ardaloedd gwledig ddirywiad rhifyddol cymesur a chyffredinol mewn siaradwyr Cymraeg. Mae'r amrywiad yn y dirywiad mewn canrannau yn amrywio o -18.6% yn Llanfairfechan i -1% yng Nghonwy. Fodd bynnag, yn y cymunedau mwy gwledig gyda phoblogaethau llai, mae'n amlwg y gall newid bach mewn niferoedd gael effaith sylweddol ar y canrannau.
- 2.1.5 Cafodd 46% o boblogaeth Conwy eu geni'r tu allan i Gymru¹. Mae 29% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg – sy'n sylweddol uwch na'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan, sef 20.5%. Mae'r gyfran o siaradwyr Cymraeg a'r rheiny a aned yng Nghymru'n cynyddu tuag at orllewin y sir ac wrth i chi deithio ymhellach i mewn i'r tir. Mae'r gallu i siarad Cymraeg ar ei uchaf yn ward wledig Uwchaled (mae 74% o'r trigolion yn siaradwyr Cymraeg), ac mae ar ei isaf yng nghymuned arfordirol ddwyreiniol Towyn a Bae Cinmel (llai nag 11%) er bod cyfran mor isel â hynny hyd yn oed yn rhoi cyfrif am 800 o bobl.
- 2.1.6 Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, Iaith Fyw: Iaith Byw 2012 – 2017 yn rhestru chwe maes strategol fel y sail i'r strategaeth. Un maes sy'n arbennig o berthnasol i'r system cynllunio defnydd tir yw maes strategol y gymuned, gyda'r nod i gryfhau safle'r iaith Gymraeg yn y gymuned. Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd Cynlluniau Datblygu Lleol fel erfyn i reoli'r defnydd o dir a datblygu cynaliadwy. Mae'r strategaeth yn cynnig adolygu ar y cyd gyda rhanddeiliaid sut y mae cymunedau Cymraeg eu hiaith wedi ymgysylltu â phroses y Cynlluniau Datblygu Lleol a pha un a allai ymgysylltiad o'r fath gael ei hwyluso'n well yn y dyfodol, adnabod sut yr ymdriniwyd â materion mewn perthynas â'r iaith Gymraeg ac ystyried yr angen i ddarparu canllawiau ychwanegol ynghylch ystyried materion mewn perthynas â'r iaith Gymraeg wrth i Gynlluniau Datblygu Lleol gael eu paratoi. Mae'r strategaeth hefyd yn amcanu at adnabod rhannau o Gymru â chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg ond lle mae'r iaith bellach dan fygythiad. Yng Nghonwy, mae wardiau yn ne ardal y Cynllun â

¹ Mae'r rhan fwyaf o gyfeiriadau ystadegol yn y ddogfen hon yn rhai at gyfrifiad 2001 sydd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn dal i fod y ffynhonnell orau sydd ar gael ar gyfer ystadegau ar yr iaith Gymraeg.

chanrannau uchel (dros 70%) o siaradwyr Cymraeg, ond mae'r niferoedd wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf.

- 2.1.7 Gall y dirywiad cymesurool fod yn sgil newidiadau demograffig, patrymau mudo a ffactorau addysgol. Mae'r ffactorau bras hyn yn cynnwys materion fel siaradwyr Cymraeg yn allfudo, y di-Gymraeg yn mewnfudo a phan na fydd yr iaith Gymraeg yn cael ei throsglwyddo o un genhedlaeth i'r nesaf. Ffactor pellach a awgrymwyd yw'r system cynllunio defnydd tir, ond gellir dadlau'r graddau y mae hyn yn ffactor.
- 2.1.8 Gall datblygiad newydd gael effeithiau manteisiol a niweidiol ar y Gymraeg. Gall effeithiau manteisiol ddigwydd pan fydd y datblygiad yn annog siaradwyr Cymraeg i aros yn eu cymunedau, er enghraifft tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol mewn ardal Cymraeg ei hiaith yn bennaf, neu pan fydd yn cefnogi hyfywedd cyfleusterau pentref, fel yr ysgol. Gall effeithiau niweidiol ddigwydd pan fydd nifer anghymesur o bobl ddi-Gymraeg yn symud i mewn i gymuned. Yn aml, gall hyn gael effeithiau cronol, er enghraifft, drwy leihau'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith siaradwyr Cymraeg. Fel y gwelir yn y rhan nesaf, mae'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn cael eu cydnabod yn fwyfwy fel ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau cynllunio.

3. Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

3.1 Polisi a Chanllawiau Cenedlaethol

- 3.1.1 Mae Cynllun Gofodol Cymru (2004; diweddarwyd 2008) yn darparu mecanwaith ar gyfer uno gweithgareddau'r Llywodraeth; mewn termau cynllunio, mae'n un o'r deg prawf cadernid y dylai CDLI eu hystyried. Mae Conwy yn syrthio'n bennaf o fewn Ardal Cynllunio Gofodol Gogledd Ddwyrain Cymru'r Cynllun, lle mae'r Cynllun yn cydnabod y defnydd amlwg o'r Gymraeg. Mae'n datgan gyda chenhedlaeth newydd o ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg yn cael ei meithrin, mae hyn yn cynnig cyfle da i'r ardal gyfalafu ar yr elfen hon o'i threftadaeth ddiwylliannol.
- 3.1.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru (2011) yn gosod polisiau defnydd tir Llywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen, ynghyd â'r canllawiau cefnogol yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 ar yr Iaith Gymraeg (2000), yn datgan y bydd lles yr iaith i'r dyfodol yn dibynnu ar ystod eang o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau

cynaliadwy ffyniannus (paragraff 4.12.1 Polisi Cynllunio Cymru) arni. Dylai'r system cynllunio defnydd tir hefyd ystyried anghenion a diddordebau'r iaith Gymraeg ac wrth wneud hynny, cyfrannu at ei lles.

3.1.3 Mae PCC yn mynd ymlaen i ddatgan y dylai'r holl awdurdodau cynllunio ystyried pa un a oes ganddynt gymunedau lle mae'r defnydd o'r Gymraeg yn rhan o'r ffabrig cymdeithasol, a lle mae hynny'n wir, mae'n briodol cymryd hyn i ystyriaeth wrth lunio polisiau defnydd tir.

3.1.4 Dylai fod yn nod gan awdurdodau cynllunio lleol ddarparu ar gyfer datblygu tai sydd wedi eu dosbarthu'n eang a gwneud hynny fesul cyfnod gan gymryd i ystyriaeth allu'r gwahanol ardaloedd a'r cymunedau i gymathu'r datblygiad heb erydu safle'r iaith Gymraeg. Fodd bynnag, mae PCC a TAN 20 ill dau'n datgan na ddylai polisiau cynllunio geisio cyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion ar sail eu gallu ieithyddol, ac na ddylai polisiau cynllunio geisio rheoli pwy sy'n byw yn y tai ar sail ieithyddol (paragraff 4.12.3 PCC, paragraff 9, TAN 20).

3.1.5 Yn 2011, cafodd TAN 20 drafft diwygiedig ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru. Mae'r prif newidiadau a gynigir yn cynnwys integreiddio Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg gyda'r gwaith Arfarnu Cynaliadwyedd ac Asesu Safleoedd sy'n rhan o gynhyrchu CDLI; ystyried yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg wrth adnabod safleoedd datblygu amgen yn y CDLI; awgrymu trefniadau monitro ar gyfer effaith ar yr iaith Gymraeg; ffyrdd o liniaru'r effaith ar yr iaith Gymraeg; a rôl yr Ardoll Seilwaith Cymunedol wrth gynnig taliadau a allai gyfrannu at ddarparu seilwaith ar gyfer yr iaith Gymraeg.

3.2 Cynllunio a'r iaith Gymraeg: y Ffordd Ymlaen

3.2.1 Cydnabyddir bod yr ACLlau wedi cael trafferth rhoi'r polisiau a'r canllawiau presennol ar waith. Mewn ymateb, lluniwyd canllawiau trwy gydweithredu rhwng awdurdodau cynllunio lleol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Comisiynydd y Gymraeg bellach), y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a Llywodraeth Cymru. Awgrymodd Cynllunio a'r iaith Gymraeg: y Ffordd Ymlaen (2005) y camau gweithredu canlynol:

- Y dylai awdurdodau cynllunio lleol dalu sylw i'w strategaethau cymunedol ac ymgysylltu pan yn paratoi polisiau defnydd;

- Dylai'r awdurdodau cynllunio lleol ddechrau diffinio Ardaloedd Ieithyddol Sensitif yn eu hardaloedd, ar sail trothwy o ganfod a allai 25% neu fwy o'r bobl yn ardal y Cyngor Cymuned siarad Cymraeg;
- Unwaith y byddai'r ardaloedd ieithyddol sensitif wedi eu diffinio, awgrymir y dylai awdurdodau cynllunio lleol nodi lle byddai angen i ddatblygwyr ddarparu Datganiad Ieithyddol i fynd gyda'u cynigion mewn ardal ieithyddol sensitif;
- Fel eithriad i hyn, ar ôl i'r awdurdod cynllunio lleol werthuso'r Datganiad ac asesu bod yr effaith yn ddifrifol andwyol, gallai'r awdurdod ofyn am Asesiad o Effaith ar Iaith.

3.2.2 Mae'r canllawiau sydd yn Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2005) yn ffurfio'r sail ar gyfer polisi CDLI a'r CCA, fodd bynnag, mae'r ddogfen yn parhau'n ganllawiau yn unig ac nid yw wedi cael statws swyddogol gan Lywodraeth Cymru eto. Dylid nodi hefyd nad yw'r TAN 20 drafft diwygiedig yn cyfeirio at Ddatganiadau nac Asesiadau o'r Effaith Ieithyddol fel a ddisgrifir yn Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn y fersiwn drafft o TAN 20 yn cyfeirio at y broses o ystyried effeithiau ar yr iaith Gymraeg trwy gydol camau'r CDLI ac nid yw'n sôn am ddefnyddio cwestiynau Datganiad Iaith nac Asesu'r Effaith ar Iaith. Mae hefyd yn datgan (paragraff 4.1.1) na ddylai ceisiadau cynllunio orfod mynd trwy asesiadau o'r effaith ar yr iaith Gymraeg.

3.2.3 Mae ACLlau Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri i gyd wedi mabwysiadu CCA ar Gynllunio a'r Iaith Gymraeg, yn seiliedig ar y canllawiau yn Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2005). Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â phob un o'r ACLlau uchod wrth lunio'r CCA a'r Papur Cefndir hwn ac ystyrir y bydd dull tebyg mewn datganiadau polisi a datganiadau cefnogol yn cael eu defnyddio.

3.2.4 Mae'r ddogfen ganllawiau'n rhestru nifer o enghreifftiau o achosion apêl cynllunio lle bu'r iaith Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol. Yn gryno, mae'n cydnabod na ddefnyddir yr iaith Gymraeg fel unig reswm dros wrthod; mae'n aml yn gysylltiedig ag effaith/effeithiau ar gymeriad cymuned benodol. Mae'n nodi y gellir amddiffyn apeliadau yn llwyddiannus os oes cefnogaeth gymunedol ac os cynhelir ymchwil i batrymau newid y gorffennol a defnydd o dai newydd yn y gymuned.

3.2.5 Roedd cyhoeddi diwygiad drafft i TAN 20 yn rhoi'r cyfle i randdeiliaid ymateb i'r ddogfen. Y berthynas rhwng cynllunio a'r iaith Gymraeg oedd y sail i seminar y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a gynhaliwyd yn Wrecsam ym mis Awst 2011. Clywodd y seminar gan randdeiliaid sy'n gweithio yn y maes hwn o fewn y system gynllunio ac roedd yn cynnwys cyflwyniad a phapur gwybodaeth ar safbwynt cyfreithiol y TAN 20 drafft sy'n ymdrin â materion asesu'r effaith ar yr iaith Gymraeg wrth gynllunio datblygu a rheoli datblygu a senarios i awdurdodau cynllunio lleol wrth ddefnyddio polisïau iaith Gymraeg a'i gwneud yn ofynnol cynnal asesiadau. Mae cyfeiriad at y papur wedi'i gynnwys yn Atodiad Un.

4. Cynllunio a'r iaith Gymraeg yng Nghonwy

4.1 Polisi Cynllunio Cyfredol yng Nghonwy

4.1.1 Ers cyhoeddi cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 53/88, a oedd yn dynodi y gellir defnyddio'r iaith Gymraeg fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio, mae'r Cyngor wedi cynnwys polisïau cynllunio yn ei gynlluniau datblygu sy'n ymwneud yn benodol â'r iaith Gymraeg.

4.1.2 Ar hyn o bryd, mae'r polisïau canlynol yn bodoli mewn Cynlluniau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer yr iaith Gymraeg:

Cynllun Strwythur Gwynedd (Mabwysiadwyd ym 1993) – Polisi Strategol 5

- Cydnabod bod yr iaith Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol wrth asesu goblygiadau datblygu yng Ngwynedd. Bydd hwn yn cael ei roi ar waith mewn ffordd sy'n sicrhau bod y nod i ddiogelu a meithrin y defnydd o'r Gymraeg yng Ngwynedd yn cael ei gyrraedd..

Cynllun Lleol Bwrdeistref Colwyn (Mabwysiadwyd ym 1999) – Polisi CG6

- Ystyrir bod yr iaith Gymraeg yn elfen bwysig yng nghymeriad cymdeithasol a diwylliannol Colwyn a, lle y bo'n briodol, bydd yr iaith yn ffactor wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio.

Cynllun Datblygu Unedol (CDU) Conwy (Ar ffurf drafft yn unig – 2001) – Polisi ST11

- Mae'r iaith Gymraeg yn elfen bwysig ym mywyd busnes, cymdeithasol a diwylliannol y Fwrdeistref Sirol. Ni fydd unrhyw ddatblygiad sy'n tanseilio safle'r iaith Gymraeg yn y gymuned yn cael ei annog.

- 4.1.3 Mae Cynllun Bwrdeistref Colwyn a'r CDU drafft hefyd yn crybwyll y defnydd o'r Gymraeg ar arwyddion a hysbysebion. Mae paragraff 9.56 o'r testun ategol ar gyfer polisi CB17 (Hysbysebion) o'r Cynllun Lleol yn datgan, er nad oes pwerau gorfodi ar gael i wneud arwyddion dwyieithog yn ofynnol, y byddai'r Cyngor yn hoffi gweld y defnydd o'r Gymraeg ar arwyddion a hysbysebion. Darperir datganiad tebyg ym mharagraff 6.60 o'r CDU drafft ar gyfer polisi BE18 (Hysbysebion).
- 4.1.4 Mae gan y Cyngor gynllun grant ar gyfer darparu arwyddion dwyieithog yn yr ACLI. Gweler adran 6 ar gyfer y manylion cyswllt.
- 4.1.5 Yn ACLI Conwy, ychydig o benderfyniadau cynllunio sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg fel ystyriaeth gynllunio berthnasol; fodd bynnag, cafodd cais diweddar am naw fflat yng nghanol Cerrigydrudion ei wrthod yn y Pwyllgor Cynllunio am resymau a oedd yn cynnwys polisi CG6 ar yr iaith Gymraeg. Er bod adroddiad y pwyllgor yn datgan y byddai'r cynnig yn rhoi cyfrif am lai na 3% o'r stoc anheddau yn ardal y Cyngor Cymuned (Cyfrifiad 2001) a'i fod yn annhebygol o arwain at erydiad yr iaith, fe benderfynodd yr Aelodau fod y cais yn groes i CG6 ac y dylai hefyd gael ei wrthod ar y sail hon. Rhagwelir y gallai'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn Cynllunio a'r iaith Gymraeg (2005) gael eu cymhwyso i geisiadau fel yr enghraifft hon i roi cymorth gyda'r broses benderfynu.

5. Yr iaith Gymraeg a CDLI Conwy

5.1 Cyflwyniad

- 5.1.1 Ar ôl disgrifio'r cyd-destun ar gyfer ystyried yr iaith Gymraeg ym maes cynllunio, mae'r adran nesaf yn egluro sut y mae'r iaith wedi cael ei hystyried wrth baratoi'r CDLI.
- 5.1.2 Mae'n bwysig ailadrodd bod polisi cynllunio cenedlaethol yn datgan yn eglur na ddylai polisiâu lleol geisio cyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion ar

sail eu gallu ieithyddol, ac na ddylent geisio rheoli pwy sy'n byw mewn tai ar sail ieithyddol. Wrth lunio'r papur cefndir hwn rhoddwyd ystyriaeth i ganllawiau sydd wedi'u cynnwys yn y TAN 20 presennol a drafft, y fframwaith ar gyfer Asesu'r Effaith Ieithyddol yn Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen ac fe gasglwyd ystod eang o ddata o Gyfrifiadau ac arolygon, gan gynnwys cynnal Arolwg Meddiannaeth Tai o dai newydd a gwblhawyd.

- 5.1.3 Derbynnir bod asesiadau o safbwynt iaith yn wrthrychol ac yn faes sy'n dal i gael ei ddatblygu yn nhermau cynllunio defnydd tir. Mae'r CDLI wedi cael ei asesu o safbwynt iaith yn ystod amryw gamau o'r CDLI ac mae hyn wedi cynnwys asesiad cymunedol ac ieithyddol o'r CDLI, y mae eu manylion llawn i'w cael yn atodiad un.

5.2 Cynllun Cynnwys y Gymuned

- 5.2.1 Mae Cynllun Cynnwys y Gymuned yn rhan o Gytundeb Cyflawni CDLI y Cyngor ac mae'n nodi dulliau i'w defnyddio yn ystod proses y CDLI ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu. Mae paragraff 3.9 yn datgan yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor, y bydd Cymraeg a Saesneg yn cael eu defnyddio mewn ymarferion ymgynghori â'r cyhoedd. Bydd cyfranogwyr yn gallu ymateb yn y naill iaith neu'r llall. Yn ychwanegol at y pwynt yma, roedd system ymgynghori ar-lein y Cyngor yn anfon cydnabyddiaeth i ymatebion yn Gymraeg os oedd sylwadau'n cael eu gwneud yn Gymraeg.

5.3 Sylfaen Dystiolaeth

- 5.3.1 Cafodd y papur cefndir hwn ei baratoi gan roi sylw i ystod o ffynonellau ystadegol, adroddiadau a dogfennau perthnasol ar gynllunio a'r iaith Gymraeg. Mae'r asesiad o'r effaith gymunedol ac ieithyddol yn atodiad un wedi cael ei baratoi gan ddefnyddio canllawiau o'r ddogfen Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2005) ac ystod o ffynonellau ystadegol.
- 5.3.2 Yn hanesyddol, mae arolygon meddiannaeth tai wedi cael eu cynnal ar draws ardal y Cynllun, gan dargedu datblygiadau tai newydd i fonitro o ble y mae meddianwyr wedi symud a'u rhesymau dros symud. Fel rhan o'r gwaith ar y CDLI a'r iaith Gymraeg, fe gynhaliodd y Cyngor arolwg meddiannaeth tai o unedau annedd newydd wedi'u cwblhau ar draws ardal y Cynllun. Mae canlyniadau'r astudiaeth hon


yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLI a cheir cyfeiriad ati yn atodiad un; mae'r astudiaeth ar gael ar yr adran o wefan y Cyngor sydd wedi'i neilltuo i'r CDLI.

5.3.3 Yn ogystal â data o gyfrifiadau, un o'r ffynonellau ystadegol cylchol a ddefnyddiwyd yn yr asesiad o'r effaith yw Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). MALIC yw'r mesur swyddogol o amddifadedd yng Nghymru, sy'n cael ei fesur ar lefel fechan – lefel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI), sef tua 1,500 o bobl. Mae'n fesur cymharol o grynodiadau o amddifadedd ac mae'n cynnwys wyth categori, sy'n cael eu mesur ar wahân a'u pwysoli (gweler y canrannau isod) i gyfrifo'r sgôr MALIC ar y cyfan ar gyfer pob ACEHI:

- Incwm (23.5%)
- Tai (5%)
- Cyflogaeth (23.5%)
- Mynediad at Wasanaethau (10%)
- Addysg (14%)
- Iechyd (14%)
- Diogelwch Cymunedol (5%)
- Yr Amgylchedd Ffisegol (5%)

5.3.4 Mae safleoedd amddifadedd wedi cael eu cyfrifo ar gyfer pob ACEHI, a'r rheiny'n amrywio o 1 (y fwyaf amddifadus) i 1,896 (y lleiaf amddifadus)

Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn:



Ffigur 2: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru - Conwy


5.3.5 Mae'n rhaid i'r CDLI hefyd ystyried strategaethau a fframweithiau eraill y Cyngor. Un o'r wyth deiliant a adnabuwyd yn nogfen gweledigaeth partneriaethau 'Un Conwy 2012-2025' yw bod 'pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae iaith, diwylliant a threftadaeth yn ffynnu'. Mae Cynllun Corfforaethol Conwy 2012-2016/17 yn rhestru camau sy'n cael blaenoriaeth dan y deiliant hwn, gan gynnwys hyrwyddo manteision siarad Cymraeg a gweithio i fynd i'r afael â'r canfyddiadau a'r rhwystrau

i ddechrau dysgu Cymraeg, yn ogystal â rhoi cymorth i fwy o ysgolion cynradd addysgu 25% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg.

- 5.3.6 Mae paragraff 5.3.13 o PCC yn datgan bod methodoleg system gwybodaeth LANDMAP Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n adnodd gwybodaeth pwysig y gall awdurdodau cynllunio lleol ei ddefnyddio wrth wneud yr asesiadau tirwedd y mae eu hangen i oleuo polisi, canllawiau a phrosesau penderfynu lleol yn y maes yma. Mae'n cofnodi ac yn gwerthuso nodweddion ar y dirwedd ac mae wedi'i rannu'n bum haen, neu agwedd. Mae'r agwedd 'Tirweddau Diwylliannol' yn gwerthuso dylanwad gweithgarwch diwylliannol, dynol ar y dirwedd ac yn grwpio ardaloedd tirwedd ar raddfa werthuso fel a ganlyn:

Tabl 1: Agweddau LANDMAP. Ffynhonnell: LANDMAP	
Eithriadol	O bwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol i'r Agwedd
Uchel	O bwysigrwydd rhanbarthol neu sirol i'r Agwedd
Cymedrol	O bwysigrwydd lleol i'r Agwedd
Isel	O bwysigrwydd bach neu ddim pwysigrwydd i'r Agwedd

- 5.3.7 Mae'r iaith Gymraeg wedi'i chynnwys yn yr agwedd 'Tirweddau Diwylliannol' dan ystod o gyfryngau diwylliannol, o fynegiannau ar ffurf deunyddiau (defnydd / mathau o dir) i gysylltiadau (lle, pobl, arferion), i fynegiannau cofnodedig (cysylltiadau artistig – llenyddiaeth, cerddoriaeth, drama; iaith, llên gwerin, cyfryngau). Mae arbenigwyr wedi mapio ardaloedd agwedd sy'n rhannu nodweddion diwylliannol cysylltiedig ac wedi grwpio'r rhain fel yn y tabl uchod. Mae 12 o ardaloedd 'Eithriadol' ym Mwrdeistref Sirol Conwy, yn bennaf yr ardal sy'n cwmpasu Dyffryn Conwy ac ardal Llandudno. Mae'r gefnwlad wledig sy'n weddill a'r rhan fwyaf o'r rhanbarth arfordirol yn rhai o bwysigrwydd 'Uchel' yn ôl y gwerthusiad tra bo pum ardal yn rhai o bwysigrwydd 'Cymedrol' yn ôl y gwerthusiad. Mae'r map canlynol yn dangos y gwerthusiad ar y cyfan ar gyfer ardal y Cynllun.



© Crown copyright and database rights 2012 Ordnance Survey 100023380
You are not permitted to copy, sub-license, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012 Arolwg Ordians 100023380
Ni cheuwch gopïo, is-dwyddedu, dosbarthu na gwerthu'r data hwn i drydydd partion mewn unrhyw ffurf.



Ffigur 3: Gwerthusiad LANDMAP ar y Cyfan ar gyfer Conwy

5.4 Materion, Gweledigaeth ac Amcanion y CDLI

- 5.4.1 Mae nifer o faterion wedi cael eu hadnabod sy'n gallu dylanwadu ar yr iaith Gymraeg ac sy'n dwyn goblygiadau i'r CDLI, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Mae'r materion hyn yn cael sylw pellach yn yr asesiad o effaith gymunedol ac ieithyddol y CDLI, yn atodiad un wrth y papur hwn.
- 5.4.2 Mae'r newid yn y boblogaeth ymhlith cymunedau Cymraeg yn ffactor pwysig, gyda siaradwyr Cymraeg yn cael eu colli trwy allfudiad a marwolaethau yn ogystal â mewnfudiad gan bobl ddi-Gymraeg, yn hanesyddol pan fônt yn ymddeol. Mater cysylltiedig allweddol i'r CDLI yw hyrwyddo strwythur oedran mwy cytbwys ac annog y boblogaeth iau a theuluoedd i aros yn yr ardal a dychwelyd iddi er mwyn cyfrannu at newid sylweddol yn y strwythur oedran a ragwelir ar gyfer y boblogaeth a'r gweithlu gostyngol cysylltiedig.
- 5.4.3 Mae ffactorau economaidd yn bwysig hefyd. Mae'n bwysig bod y CDLI yn darparu tir i ateb y gofynion rhagamcanol ar gyfer datblygu economaidd; fodd bynnag, mae'n bwysig bod safleoedd newydd yn gymesur â maint aneddiadau, yn enwedig yn ardal Gymraeg draddodiadol y strategaeth datblygu gwledig. Yn yr un modd, ni ddylai'r ddarpariaeth o ran safleoedd tai fod ar raddfa ormodol lle gallai effeithio'n niweidiol ar safle'r iaith Gymraeg mewn anheddiad arbennig.
- 5.4.4 Mae gweledigaeth y CDLI – 'Conwy yn 2022' yn dagan fel a ganlyn: 'Erbyn 2022, bydd cymunedau Conwy'n fwy cynaliadwy, yn cynnig ansawdd bywyd uwch ac yn cael eu hategu gan strwythur oedran mwy cytbwys...O fewn y cymunedau hyn, bydd datblygiadau wedi ategu a chynnal lles hirdymor yr iaith Gymraeg.'
- 5.4.5 Mae un ar bymtheg o amcanion gofodol (AG) wedi cael eu llunio fel modd i wireddu'r weledigaeth a mynd i'r afael â'r materion sy'n flaenoriaeth o fewn Ardal y Cynllun. Mae AG16 yn datgan y bydd y Cynllun yn sicrhau bod datblygiadau'n ategu ac yn cynnal lles hirdymor yr iaith Gymraeg a chymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymunedau. Mae AG16 yn cysylltu â'r thema 'Annog Dysgu a Chreadigrwydd' yn y Strategaeth Gymunedol a'r ymrwymiad yn y Cynllun Corfforaethol i arwain y ffordd trwy wneud yn siŵr bod y Cyngor yn cyfrannu tuag at ddyfodol cynaliadwy.

5.5 Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol

- 5.5.1 Estynnodd y Cyngor wahoddiad i gyflwyno safleoedd i'w cynnwys o bosib yn y CDLI. Lluniwyd cofrestr safleoedd ymgeisiol a chafodd y safleoedd eu hasesu i benderfynu a oeddent yn addas i gael eu cynnwys. Roedd dau gam i fethodoleg asesu safleoedd y Cyngor; y naill i hepgor safleoedd sy'n annhebygol o fod yn addas i gael eu cynnwys oherwydd ffactorau megis maint y safle, eu bod yn groes i bolisi cynllunio cenedlaethol ac y cyfyngir arnynt gan ffactorau megis perygl llifogydd; a'r llall i hepgor safleoedd yn dilyn ymgynghori â chyrff statudol i bennu rhestr o safleoedd i'w cynnwys.
- 5.5.2 Fel rhan o'r asesiadau o safleoedd yng nghanau, cafodd safleoedd eu hasesu ar sail Amcan Gofodol 16 ar yr iaith Gymraeg. Mae'r effaith bosib ar yr iaith Gymraeg wedi cael ei hystyried trwy gymhwyso dwysedd o 30 annedd am bob hectar (yn unol â pholisi HOU/3 ar ddwysedd tai) i bennu faint o dai y gellid gwneud lle iddynt ar safleoedd, ac wedyn ystyried hyn ochr yn ochr â'r strategaeth ofodol a maint yr anheddiad ac ystadegau ar yr iaith Gymraeg ar gyfer y gymuned honno.

Mae'n bwysig nodi bod yr iaith Gymraeg yn un o nifer o ffactorau y mae angen eu hystyried wrth benderfynu pa safleoedd i'w cynnwys. Lle canfyddir effeithiau anffafriol posib ar yr iaith Gymraeg, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i benderfynu a fyddai mesurau lliniaru'n briodol (gweler TAN 20 drafft a'r ddogfen Cynllunio a'r iaith Gymraeg: y Ffordd Ymlaen ar gyfer enghreifftiau o fesurau lliniaru). Ceir mwy o wybodaeth am y broses asesu safleoedd ym Mhapur Cefndir 21: Asesiad o'r Gallu i Ddarparu Safleoedd.

5.6 Strategaeth Ffaffriedig CDLI Conwy

- 5.6.1 Mae amcan pedwar yn datgan y bydd y cynllun yn sicrhau bod datblygiadau mewn cymunedau Cymraeg yn gydnaws â hyfywedd hirdymor yr iaith Gymraeg.
- 5.6.2 Mae paragraff 2.4.4 a thabl tri yn rhestru'r prif feini prawf a fydd yn cael eu hystyried wrth bennu twf pob anheddiad. Mae effaith datblygiadau ar yr iaith Gymraeg wedi'i chynnwys yn y meini prawf a restrir dan yr amcan Cymdeithasol ac Economaidd.
- 5.6.3 Mae paragraff 3.2.19 yn datgan bod y cyfyngiad ac amrywiaeth cyfyngedig o dai newydd mewn pentrefi gwledig, ynghyd ag amrywiadau mewn cyfraddau adeiladu,

yn golygu, ar adegau, mai ychydig o dai newydd sydd, tra bo nifer yr anheddau newydd yn uwch nag anghenion lleol yn ystod cyfnodau eraill. Mae hyn yn cyflymu mewnfudiad ac yn niweidio'r iaith Gymraeg.

- 5.6.4 Mae paragraff 3.4.6 yn datgan bod yn rhaid i gynigion sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar gymeriad ieithyddol ardal sy'n sensitif o ran iaith gael eu cyflwyno gyda naill ai datganiad ar iaith neu ganlyniadau asesiad o'r effaith ieithyddol.

5.7 CDLI Diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd

- 5.7.1 Mae BP/37 yn crynhoi'r chwe dewis ar gyfer dosbarthiad gofodol rhwng yr ardaloedd strategol. Mae Arfarniad Cynaliadwyedd o bob dewis wedi cael ei gynnwys yn nhabl 2 o BP/37 ac mae'r iaith Gymraeg wedi cael ei hystyried dan yr amcan 'Cynnal a gwella hunaniaeth a chydlyniant cymunedol'. Mae dewis tri, y dewis gofodol a ffafir, yn cael sgôr cadarnhaol isel mewn perthynas â'r amcan hwn; nid yw'r un dewis arall yn cael sgôr uwch mewn perthynas â'r amcan hwn. Ni chafodd yr un o'r dewisiadau sy'n ymwneud â setliad newydd na'r dewis sy'n ymwneud â thwf gwledig sgôr cadarnhaol mewn perthynas â'r amcan oherwydd yr effeithiau niweidiol tebygol ar ardal y strategaeth wledig a'r cymunedau traddodiadol Gymraeg.
- 5.7.2 Mae Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC / AAS) wedi cael eu cynnal mewn perthynas â'r polisiau yn y CDLI. Mae paragraff 10.61 o'r AC / AAS yn datgan bod yr iaith Gymraeg yn hanfodol i gymeriad nifer o'r cymunedau yn y Fwrdeistref Sirol. Felly, mae'n bwysig nad yw datblygiad yn cael effaith negyddol ar y dreftadaeth hon. Mae'r AC o bolisiau'n nodi y gall fod yn anodd canfod sut y gall datblygiad gael effaith ar yr iaith Gymraeg, ac efallai y bydd rhai amcanion sy'n ymwneud â thwf economaidd yn gwrthdaro â hyn.
- 5.7.3 Darparodd y Cyngor ymateb i'r argymhelliad (gweler tudalen 178 o'r AC/AAS) gan ddatgan bod Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) wedi cael eu llunio sy'n manylu ar y trothwyon a'r gofynion ar gyfer cynnal asesiadau. Mae'r CCA wedi cael eu diwygio yn dilyn sylwadau a gafwyd yng ngham y Cynllun diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd a'r gwaith a wnaed fel y nodir yn y papur cefndir hwn.

- 5.7.4 Mae'r CDLI wedi cael ei asesu gan ddefnyddio'r fethodoleg ar gyfer asesu'r effaith gymunedol ac ieithyddol, yn seiliedig ar y 18 cwestiwn yn y ddogfen Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: y Ffordd Ymlaen. Mae'r asesiad llawn o'r effaith wedi'i gynnwys yn atodiad un wrth y papur hwn. Mae canllawiau yn y ddogfen CAIG yn rhoi'r cyfle i roi pwysiad i'r cwestiynau yn seiliedig ar amgylchiadau lleol a blaenoriaethau polisi. I'r Cyngor, mae pwyslais arbennig wedi cael ei roi ar nodweddion y boblogaeth ac agweddau cymdeithasol a diwylliannol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y mesurau lliniaru a gynigir (gweler hefyd CDLI6: CCA Yr Iaith Gymraeg). Mae manteision economaidd datblygiadau newydd a'r strategaeth ofodol ar gyfer datblygiadau newydd wedi cael eu hasesu ond ni ystyrir eu bod yn cael effaith mor fawr ar yr iaith Gymraeg; fodd bynnag, mae mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i fonitro effaith cynlluniau newydd o faint arbennig a allai gael eu cyflwyno yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'r paragraffau isod yn crynhoi'r ystyriaethau cynllunio allweddol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg ar gyfer y CDLI.
- 5.7.5 Yn ardal strategaeth datblygu gwledig y cynllun, bydd y Cyngor yn ceisio tai fforddiadwy yn ôl cyfradd o 30% ar gyfer angen lleol ar gynlluniau â phum annedd a mwy mewn prif bentrefi haen un a bydd yn ceisio tai fforddiadwy yn ôl cyfradd o 100% ar gyfer angen lleol ar gynlluniau ac un annedd a mwy mewn prif bentrefi a phentrefi llai haen dau. Fel y nodwyd yn yr ymatebion i'r cwestiynau uchod, gall tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol mewn cymunedau Cymraeg helpu i gadw poblogaethau Cymraeg eu hiaith, gan gynnwys pobl ifancach. Mae'r dull hwn yn gyson â'r dull cynllunio mewn perthynas â'r iaith Gymraeg sy'n cefnogi tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol gan gynnwys anheddau menter wledig. Yn bwysig, dylai dosbarthiad tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol ddiwallu'r anghenion ar draws ardal y Cynllun, a phaidio â bod wedi'u crynhoi mewn un neu ddau leoliad yn unig. Eto, mae BP/37 yn nodi'r cyfiawnhad dros ddosbarthiad y twf.
- 5.7.6 Yn dilyn eglurhad gan Lywodraeth Cymru o'r sefyllfa gydag asesiadau o safbwynt yr iaith Gymraeg yn ystod y cam pan gyflwynir ceisiadau cynllunio, mae polisi CTH/5 wedi cael ei ddiwygio i sicrhau nad yw dyraniadau safleoedd yn ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiad llawn o'r effaith ar y cam ymgeisio i bennu'r egwyddor datblygu. Caiff yr egwyddor datblygu ei sefydlu trwy broses y cynllun datblygu; fodd bynnag, gall polisi gyfeirio'n fwy rhesymol at fathau nas rhagwelwyd o

ddatblygiadau y mae'n ofynnol cynnal asesiad ar eu cyfer neu at asesiad y mae ei angen i bennu manylion unrhyw fesurau lliniaru.

5.7.7 Mae polisi CTH/5 felly wedi cael ei ddiwygio i ddarllen fel a ganlyn:

POLISI CTH/5 –YR IAITH GYMRAEG

1. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod datblygiadau'n ategu ac yn cynnal lles hirdymor yr iaith Gymraeg, a bydd yn gwrthod datblygiadau a fydd, oherwydd eu maint, graddfa neu leoliad, yn achosi niwed sylweddol i gymeriad neu gydbwysedd ieithyddol cymuned. Mae strategaeth y CDLI wedi cael ei hasesu o safbwynt ei heffaith ar yr iaith Gymraeg ac mae'r gofynion canlynol wedi cael eu hadnabod:
 - a. Bydd 'Datganiadau Lliniaru' yn ofynnol ar gyfer safleoedd tai a ddyrannwyd yn Abergele a Llanrwst a'r safle defnydd cymysg a ddyrannwyd yn Nolgarrwg yn unol â chanlyniadau'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg;
 - b. Dylid cyflwyno 'Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol' gyda'r canlynol: ceisiadau am dai ar hapsafleoedd â deg uned neu fwy yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Trefol a phum uned neu fwy yn yr ardal Strategaeth Datblygu Gwledig; datblygiad masnachol, diwydiannol neu dwristiaidd ag arwynebedd o 1,000 metr sgwâr neu fwy yn ardal y Cynllun; a datblygiadau sy'n debygol o arwain at golli cyfleusterau cymunedol fel a ddiffinnir ym Mholisi CFS/6;
 - c. Unwaith y bydd y ddarpariaeth tai ar hap wedi'i chyflawni ar gyfer ardal yn y strategaeth ofodol yn unol â'r ffigyrau yn nhabl 4 HOU1a, bydd hyn yn sbarduno adolygiad a fyddai'n cyflwyno asesiad o'r holl geisiadau am dai ar hap mewn perthynas â'r iaith Gymraeg;
 - d. Dylid cyflwyno asesiad manylach ar ffurf 'Asesiad o'r Effaith Gymunedol ac Ieithyddol' gyda cheisiadau yn ardal y Cynllun sydd ar raddfa fwy, yn sylweddol uwch na'r holl drothwyon uchod, gan gynnwys datblygiadau preswyl, masnachol, diwydiannol, twristiaeth a seilwaith ar raddfa fawr.
2. Bydd y Cyngor yn rhoi anogaeth, ledled ardal y Cynllun, i ddarparu arwyddion dwyieithog a chadw enwau Cymraeg traddodiadol ar gyfer datblygiadau a strydoedd newydd.

- 5.7.8 Mae manylion sy'n nodi sut y bydd polisi CTH/5 yn cael ei asesu wedi'u darparu yn y testun ategol ar gyfer CTH/5 ac mewn Canllawiau Cynllunio Atodol, sydd hefyd wedi cael eu diwygio o'r fersiwn drafft a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r CDLI diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn 2011. Ffactor pwysig wrth baratoi'r polisi hwn fu sicrhau bod unrhyw ddatganiad neu asesiad o'r effaith sy'n ofynnol yn gymesur â graddfa cais.
- 5.7.9 Mae TAN 20 yn datgan y gall arwyddion gael effaith weledol iawn ar gymeriad ardal, gan gynnwys ei chymeriad ieithyddol. Gall polisiâu mewn Cynlluniau Datblygu Lleol ar arwyddion a hysbysebu hybu'r arfer o ddarparu arwyddion dwyieithog, yn amodol ar reolaeth gynllunio. Bydd polisi CTH/5 felly'n hybu'r arfer o ddarparu arwyddion dwyieithog yn ardal y Cynllun, fel un ffordd o atgyfnerthu hynodrwydd lleol a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn weledol.
- 5.7.10 Mae polisi CTH/5 yn datgan bod strategaeth y CDLI a'r dyraniadau safle arfaethedig wedi cael eu hasesu o safbwynt eu heffaith ar yr iaith Gymraeg. O ganlyniad i'r asesiad hwn ystyrir y dylid cymhwyso manylion pellach am fesurau lliniaru i'r cynigion ar gyfer safleoedd tai yn Abergele a Llanrwst. Mae Tabl X yn rhestru'r safleoedd y bydd asesiad lliniaru pellach yn ofynnol ar eu cyfer yn unol â pholisi CTH/5 a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar yr iaith Gymraeg. **Nid yw** asesiad i bennu mesurau lliniaru'n golygu bod yr egwyddor datblygu hefyd yn cael ei chwestiynu; mae hon wedi cael ei phennu trwy broses y CDLI (gweler BP/21 – Asesiad o Allu Safleoedd i Gael eu Darparu) ac ni ddylai fod yn fater sy'n cael sylw yn y cam ymgeisio ar sail ystyriaethau o safbwynt yr iaith Gymraeg.

Tabl 2: Safleoedd yn Abergele a Llanrwst y mae'n ofynnol cyflwyno datganiadau lliniaru ar eu cyfer yn y cam pan gyflwynir cais cynllunio					
Abergele		Llanrwst			
Cyf Sfl	Enw'r Safle	Cyf Sfl	Enw'r Safle		
481	Parc Busnes Abergele	287	Bryn Hyfryd / Ffordd Tan yr Ysgol		
79 / 80 / 81 / 82 / E3	Ffordd Rhuddlan / Tandderwen	455	Safle A l'r Gogledd o Lanrwst		
		458	Safle D l'r Dwyrain o Lanrwst		
		459	Safle E Gyferbyn â Bryn Hyfryd		

- 5.7.11 Yn ogystal â'r dyraniadau tai yn Abergele a Llanrwst, mae'n ofynnol cyflwyno Datganiad Lliniaru ar gyfer y safle cymysg tai a thwristiaeth yng Ngwaith Alwminiwm Dolgarrog i bennu'r mesurau lliniaru ar gyfer y defnyddiau tai a thwristiaeth mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Eto, nid asesiad o'r egwyddor datblygu yw hyn ond asesiad o'r mesurau i'w cymryd i liniaru effeithiau posib ar yr iaith Gymraeg yn y gymuned yn seiliedig ar raddfa'r datblygiad.
- 5.7.12 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol ar yr iaith Gymraeg yn cyd-fynd â'r CDLI ac yn manylu ar y gofynion asesu ar gyfer Datganiadau Lliniaru. Yn ogystal â'r datganiadau hyn, yn unol â chanllawiau yn y ddogfen Cynllunio a'r iaith Gymraeg: y Ffordd Ymlaen (2005), mae'r Cyngor yn cynnig defnyddio Datganiadau Cymunedol ac Ieithyddol ac Asesiadau o'r Effaith Gymunedol ac Ieithyddol i asesu rhai cynigion lle ystyrir y gallent niweidio cymeriad a chydbwysedd ieithyddol y gymuned yn sylweddol.
- 5.7.13 Fe ymgynghorodd y Cyngor ynghylch y CCA yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch y CDLI diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd; ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r ddogfen. Fodd bynnag, yn dilyn sylwadau a gafwyd ar y dull arfaethedig yn y CDLI a pholisi CTH/5, bu'n angenrheidiol diwygio'r CCA i ategu'r polisi CTH/5 diwygiedig. Mae hyn yn sicrhau nad yw'r egwyddor datblygu ar safleoedd a ddyrannwyd yn cael ei chwestiynu trwy'r broses Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol / Asesiad o'r Effaith Gymunedol ac Ieithyddol yn y cam ymgeisio. Yn hytrach, byddai'n dal yn ofynnol cynnal asesiad yn y ffordd yma ar gyfer datblygiadau eithriadol fel y nodir yn y polisi a byddai'n ofynnol cynnal asesiad hefyd ar gyfer cynlluniau tai ar hap uwchlaw trothwyon arbennig gan y dylai datblygiadau ar hap gael eu cyflawni ar safleoedd ar raddfa lai dros gyfnod y Cynllun, nid ar safleoedd mwy o fewn ffrâm amser fyrrach.
- 5.7.14 Mae paragraff 4.2.2 o'r TAN 20 diwygiedig drafft yn datgan, lle mae'r iaith Gymraeg wedi cael ei hadnabod fel rhan arwyddocaol o ffabrig cymdeithasol y gymuned, fe all darparu seilwaith ar gyfer yr iaith Gymraeg, dan amgylchiadau priodol, gael ei gynnwys ar atodlen codi tâl ar gyfer Seilwaith Cymunedol. Fe ellid defnyddio hyn, er enghraifft, i gael cyfraniad ariannol gan ddatblygwyr tuag at gyrsgiau Cymraeg i oedolion a gwersi Cymraeg dwys i blant di-Gymraeg sy'n dechrau derbyn addysg Gymraeg.

5.7.15 Mae paragraff 3.2.5 o'r papur hwn yn cyfeirio at bapur gwybodaeth ar sefyllfa gyfreithiol TAN 20 drafft a sut y bydd awdurdodau cynllunio lleol o bosib yn dymuno ystyried asesiadau o'r effaith ar yr iaith Gymraeg wrth gynllunio datblygu a rheoli datblygiadau. Mae'r papur (gweler y ddolen a ddarperir yn atodiad un) yn gyson â dull Parc Cenedlaethol Eryri o ran ei gwneud yn ofynnol asesu cynlluniau ar hap. Mae'r ddwy ddogfen hon wedi cael eu hystyried wrth lunio polisi CTH/5.

5.7.16 Mae'r mesurau allweddol ar gyfer diogelu a gwella safle'r iaith Gymraeg yn y CDLI fel a ganlyn:

- Mae cyflawni datblygiadau tai fesul cam ar draws yr ACLI yn hanfodol i sicrhau bod datblygiadau'n cael eu cyflwyno mewn ffordd gynaliadwy er mwyn peidio â chael effaith negyddol ar gymunedau, o ran cymhathu a diwylliant lleol (e.e. yr iaith Gymraeg). Mae BP/30 Cynllun Fesul Cam ac adran pump o'r CDLI yn ymdrin â materion gweithredu a chyflawni fesul cam.
- Bydd darparu tai fforddiadwy i gwrdd ag anghenion lleol yn helpu i gadw pobl leol, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig.
- Ar gyfer cynigion i ddatblygu safleoedd cyflogaeth, lle y bo'n briodol, gall fod yn ofynnol darparu contractau ar gyfer llafur lleol a rhoi cymorth i fentrau hyfforddiant lleol, yn ogystal â rhoi cymorth a chyllid ar gyfer sesiynau cynefino ar yr iaith a gwersi iaith i staff. Gweler CCA LDP4: Rhwymedigaethau Cynllunio i gael mwy o wybodaeth am ofynion o'r fath. Yn ogystal, cynigiwyd yn y TAN 20 drafft (paragraff 4.2.2) y gall darparu seilwaith ar gyfer yr iaith Gymraeg, dan amgylchiadau priodol, gael ei gynnwys ar atodlen codi tâl ar gyfer Seilwaith Cymunedol yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Fe ellid defnyddio hyn, er enghraifft, i gael cyfraniad ariannol gan ddatblygwyr tuag at gyrsiau Gymraeg i oedolion a gwersi Gymraeg dwys i blant di-Gymraeg sy'n dechrau derbyn addysg Gymraeg.
- Cymorth a chyllid ar gyfer mentrau diwylliannol ac ieithyddol i annog y defnydd o'r iaith mewn cymunedau. Dylid archwilio hyn ymhellach yn ystod y cam ymgeisio trwy ymgynghori â grwpiau lleol yn ogystal â Chomisiynydd y Gymraeg.
- Cynnal arolygon wedi'u targedu o feddianwyr datblygiadau tai newydd o ddyraniadau yn y CDLI a datblygiadau ar hap i gasglu gwybodaeth am nodweddion cymdeithasol meddianwyr newydd. Fe allai arolwg o'r fath fod o gymorth gyda monitro effeithiau datblygiadau newydd ar yr iaith Gymraeg. Mae'r

gofyniad hwn wedi cael ei gynnwys yn fframwaith monitro'r CDLI ac mae hefyd wedi cael ei adnabod fel gofyniad y gellid ei gynnwys o bosib mewn Datganiadau Lliniaru ac unrhyw geisiadau dilynol y mae'n ofynnol cyflwyno naill ai Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol neu Asesiad o'r Effaith Gymunedol ac Ieithyddol ar eu cyfer. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg a Menter Iaith Conwy i ddatblygu ymhellach y gwaith arolwg trwy gynnwys tystiolaeth anecdotaidd ochr yn ochr â ffynonellau ystadegol.

- Hybu ansawdd dylunio a hynodrwydd lleol trwy bolisi DP/3 a'r CCA ar Ddylunio.
- Cyflwyno safleoedd arfaethedig fesul cam i sicrhau bod datblygiadau'n cael eu cyflwyno'n gymesur, ar gyfradd cyflawni addas.
- Sicrhau bod egwyddorion datblygu cynaliadwy'n cael eu dwyn ymlaen i gam cyflawni'r CDLI (ar ôl iddo gael ei fabwysiadu) gyda phwyslais ar greu lleoedd sy'n hygyrch mewn ffordd gynaliadwy gyda thirlunio da a chan ddarparu mannau agored i'r cyhoedd.
- Cymorth a chyllid ar gyfer mentrau diwylliannol ac ieithyddol i annog y defnydd o'r iaith mewn cymunedau. Dylid archwilio hyn ymhellach yn ystod y cam ymgeisio trwy ymgynghori â grwpiau lleol yn ogystal â Chomisiynydd y Gymraeg.
- Gall cynigion ar gyfer twristiaeth ddefnyddio'r iaith Gymraeg trwy ddeunyddiau cyhoeddusrwydd i atgyfnerthu hunaniaeth a hynodrwydd diwylliannol. Gall fod yn ofynnol defnyddio'r iaith Gymraeg fel sgil llafur ar gyfer rhai datblygiadau twristiaeth.
- Diogelu cyfleusterau lleol yn enwedig mewn cymunedau gwledig lle maent yn gweithredu fel canolfannau a mannau cyfarfod a lle gellir gweld a chlywed yr iaith Gymraeg. Mae CCA LDP6 yn datgan, mewn rhai achosion penodol, pan fo cynigion yn golygu colli cyfleuster cymunedol, y gall fod yn ofynnol asesu'r effaith ar yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg.

6. Monitro

6.1 Monitro'r CDLI

- 6.1.1 Mae gan bob polisi strategol yn y CDLI gyfres o ddangosyddion monitro ynghlwm sy'n ymdrin â'r polisiâu cysylltiedig ar gyfer y rhan honno. Mae'r polisi iaith Gymraeg, CTH/5, yn ffurfio rhan o bolisi strategol y bennod Treftadaeth Ddiwylliannol, CTH/1. Mae llunio Adroddiad Monitro Blynnyddol ar ôl mabwysiadu'r CDLI yn galluogi'r Cyngor i adolygu'r Cynllun a'r polisiâu, gyda'r dangosyddion yn

cael eu defnyddio fel mesur o effeithiolrwydd polisi wrth fodloni'r amcanion strategol.

6.2 Monitro Polisi CTH/5

- 6.2.1 Mae'r ddogfen Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2005) yn awgrymu y dylai ACLlau sicrhau bod effaith polisiau mewn cynlluniau datblygu ar les yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg yn cael ei hadolygu a'i monitro i sicrhau bod y Cynlluniau Datblygu Lleol hynny'n fwy effeithiol. Mae TAN 20 drafft hefyd yn datgan y dylid adnabod a monitro dangosyddion priodol ar gyfer yr iaith Gymraeg. Mae dangosyddion yn dod i'r fei o ACLlau eraill sy'n camu ymlaen trwy'r system Cynlluniau Datblygu Lleol i'r cam Archwilio gan y Cyhoedd ac Archwilio gan Arolygydd. Mae awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, er enghraifft, yn cynnwys dangosyddion ar gyfer nifer y Datganiadau Cymunedol ac Ieithyddol / Asesiadau o'r Effaith a gyflwynwyd a monitro effeithiolrwydd y dogfennau. Mae'r targedau'n cynnwys dim niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymuned (sylwer – y lefel sy'n sbarduno adolygiad yw 1 cynllun niweidiol am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad niweidiol mewn 1 flwyddyn), nifer y Datganiadau / Asesiadau o'r Effaith a gynhyrchwyd gan gydymffurfio â pholisi, cynnydd yn nifer yr arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog a chynnydd yn nifer yr enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd.
- 6.2.2 Bydd y polisi a'r ceisiadau a gyflwynir yn cael eu monitro'n flynyddol i sicrhau bod y trothwyon yn briodol ac nad yw datblygu'n effeithio'n negyddol ar nifer y siaradwyr Cymraeg. Bydd yn bwysig monitro effeithiolrwydd y polisi trwy'r datganiadau lliniaru a gyflwynir a defnyddio datganiadau cymunedol ac ieithyddol ac asesiadau o'r effaith gymunedol ac ieithyddol. Bydd cynnal arolygon meddiannaeth tai hefyd yn cyfrannu tuag at fonitro patrymau ymfudo a siarad Cymraeg.
- 6.2.3 Un elfen bwysig o'r fframwaith adolygu a monitro ar gyfer y ddau ddangosydd fydd y diwygiad o TAN 20 a'i argymhellion yn unol â pholisi cenedlaethol.

Atodiad 1 – Asesiad o Effaith Gymunedol ac Ieithyddol CDLI Conwy

1. A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at gynnydd / gostyngiad yn y boblogaeth a allai:	
Effeithio ar gydbwysedd y siaradwyr Cymraeg/Saesneg (yn gadarnhaol neu'n negyddol)?	Arwain at ddirywiad llwyr neu gymesur yn nifer y siaradwyr Cymraeg?

- Mae'r tabl isod yn crynhoi'r newid yn niferoedd a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg fesul ardal yn y strategaeth ofodol o 1991-2001. Ar y cyfan, bu gostyngiad o 133 o bobl yng nghyfanswm y siaradwyr Cymraeg. O ran cyfran, fe ostyngodd canran y siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd 1.4% rhwng 1991 a 2001, o 30.6% i 29.2%; fodd bynnag, mae'r gyfran yn dal i fod ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 20.8%.

Tabl 3: Siaradwyr Cymraeg fesul Ardal yn y Strategaeth Ofodol, 1991 a 2001 (ffynhonnell: Cyfrifiad 1991 a 2001, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

	Cyfanswm y Siaradwyr Cymraeg			Fel % o'r holl bobl 3 oed a throsodd		
	1991	2001	Newid	1991	2001	Newid
Abergele, Towyn, Bae Cinnel	2,594	2,874	280	16.6%	16.6%	0%
Bae Colwyn a Mochdre	5,124	5,358	234	20.2%	20.9%	0.7%
Llandudno, Cyffordd Llandudno a Chonwy	7,775	8,378	603	25.1%	25.2%	-0.1%
Llanfairfechan, Penmaenmawr	2,939	2,717	-222	47.5%	45.6%	-1.9%
Llanrwst	1,883	1,881	-2	64.4%	64.4%	0%
Gwledig	10,397	9,442	-955	51.8%	47.1%	-4.7%
CBS Conwy	31,431	31,298	-133	30.6%	29.2%	-1.4%
Cymru / Wales	508,098	582,368	74,270	18.7%	20.8%	2.1%

- Ar lefel ardaloedd yn y strategaeth ofodol, bu'r newidiadau mwyaf yn yr ardal wledig, hynny yw ardal Gymraeg draddodiadol y Cynllun. Y gostyngiad mwyaf ar lefel ward oedd -10.7% yn Uwch Conwy yn ardal wledig fwyaf deheuol y Cynllun, er bod y rhan

fwyaf o'r ward hon wedi'i lleoli yn y Parc Cenedlaethol lle mae'r CDLI a fabwysiadwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri'n cael ei ddefnyddio. Dim ond mewn un ward yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig, Llysfaen, y gwelwyd cynnydd rhwng 1991 a 2001, o 22.5% i 23.8% (1.2%).

- Yn yr Ardaloedd Strategaeth Datblygu Trefol ar hyd yr arfordir, profodd yr ardal orllewinol (Llanfairfechan a Phenmaenmawr) ostyngiad cyfartalog o 1.9%. Profodd yr ardaloedd gofodol eraill gynyddiadau bach iawn ac ni fu newid yn ardal Abergele/Towyn/ Bae Cinmel o 16.6% yn y ddau arolwg er y dylid nodi yn Abergele bod wardiau Gele a Phentre Mawr wedi profi gostyngiadau o 0.5% a 2.4% yn y drefn honno tra bo ward Abergele Pensarn wedi profi cynnydd o 2.3%. Er mai ychydig iawn o newid fu yng nghyfanswm y siaradwyr Cymraeg yn Abergele rhwng y ddau Gyfrifiad, bu gostyngiad bach yn y gyfran.
- Mae hefyd yn werth nodi bod ystadegau mwy diweddar ar gael ar amcangyfrifon o'r bobl sy'n siarad Cymraeg gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Comisiynydd y Gymraeg bellach). Mae'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, a gynhelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn amcangyfrif bod cyfran y bobl â sgiliau iaith Gymraeg yn uwch na'r amcangyfrifon yn y priod Gyfrifiadau. Mae'n debygol bod hyn yn cael ei achosi gan ffactorau sy'n cynnwys dull yr arolwg, cyd-destun y cwestiynau, cwmpas a golygu. Mae'r arolwg hwn hefyd yn debygol o fod yn fwy cynhwysol i bobl â sgiliau cyfyngedig neu nad ydynt mor hyderus ynghylch y sgiliau hynny, na'r Cyfrifiad.
- Cafodd yr Arolwg Defnydd Iaith ei gynnal gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg rhwng 2004 a 2006 ac mae'r tabl canlynol yn dangos y canlyniadau o'i gymharu â Chyfrifiad 2001 sydd, er gwaethaf y sampl cymharol fach, yn galonogol o ystyried y cynnydd bach. Yn Astudiaeth ddiweddar y Cyngor o Feddiannaeth Tai Newydd (2011) roedd 23% o'r holl aelwydydd a ymatebodd naill ai'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu fel ail iaith.
- Ni ellir cymharu'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn uniongyrchol â Chyfrifiad 2001. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n cyhoeddi'r ddwy set data, yn credu eu bod yn mesur pethau sydd ychydig yn wahanol, gan fod yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn fwy tebygol o gynnwys dysgwyr Cymraeg.

Tabl 4: Y gallu i siarad Cymraeg (Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)			
	% y Gallu i Siarad Cymraeg		
Ardal	Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (2001)	Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (2010)	Gwahaniaeth (%)
BS Conwy	41.4	33.3	8.1
Cymru	29.1	24.8	4.3

Strategaeth y CDLI

- O ganlyniad i feintiau gostyngol aelwydydd a mewnfudiad net rhagamcanol mae mwy o angen am dai newydd ac, yn arbennig, gofyniad cynyddol o ran tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol dros gyfnod y Cynllun (gweler BP/2 a BP/3 am eglurhad pellach o'r amcanestyniadau ar gyfer y boblogaeth ac aelwydydd).
- Mae'r CDLI yn pwysleisio'r amcan i ddarparu cyfleoedd tai i ddiwallu anghenion cymunedau lleol, gan gynnwys darparu cyfleoedd tai a chyflogaeth i gadw pobl ifancach. Mae hyn yn cynnwys tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol.
- Yn yr ardaloedd mwy traddodiadol Gymraeg yn yr ardal strategaeth wledig, gallai'r CDLI effeithio ar gydbwysedd y siaradwyr Cymraeg, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig sy'n bennaf yn Gymraeg eu hiaith, os yw pobl ifanc yn methu â byw a gweithio yn eu cymunedau genedigol. Cynigir safleoedd tai a chyflogaeth ar raddfa lai i adlewyrchu gallu amgylcheddol a chymdeithasol yr aneddiadau hyn. Gan gydnabod tueddiadau yn y gorffennol o ran y boblogaeth ifancach yn gadael cymunedau i fyw a gweithio mewn ardaloedd eraill – yn aml y tu allan i ardal y Cynllun – bydd dyraniadau yn yr ardal strategaeth datblygu gwledig yn anad dim yn cynnwys tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol.
- Dylai'r strategaeth ofodol ar gyfer dosbarthu ffigyrau tai a chyflogaeth y CDLI olygu nad yw'r Cynllun yn effeithio'n negyddol ar y cydbwysedd o ran siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Trwy ddosbarthu tai'r farchnad a thai fforddiadwy ar draws ardal y Cynllun bydd hyn yn rhoi mwy o ddewis a hyblygrwydd i bobl sy'n dymuno aros yn eu cymunedau genedigol. Ceir mwy o wybodaeth am ddosbarthiad gofodol datblygiadau yn BP/37.

Tabl 5: Y lefel ddatblygu a ragwelir am bob ardal yn yr hierarchaeth aneddiadau.
Ffynhonnell: CDLI Conwy (gweler hefyd BP/4 a BP/5 am ffigyrau ar gyfer y cyflenwad o dai)

Ardal yn yr Hierarchaeth Anheddau	Cwblhawyd	Caniatâd 10+	Ar hap	Dyraniadau	CYFANSWM
Llanfairfechan a Phenmaenmawr	106	52	94	52	304
Conwy, Llandudno a Chyffordd Llandudno	295	523	497	335	1650
Bae Colwyn	319	227	410	535	1491
Abergele, Towyn a Bae Cinnel	126	48	110	840	1124
Llanrwst	28	0	67	200	295
Prif Bentreffi Haen 1	16	41	50	235	342
Prif Bentreffi Haen 2	45	0	120	170	335
Pentreffi Llai	12	0	38	0	50
Pentrefannau	11	0	36	0	47
Cefn Gwlad Agored	10	0	41	0	51
CYFANSYMIAU	968	891	1463	2367	5689
			Strategaeth Cartrefi Gwag		509
			Moderneiddio Ysgolion		199
			Cyfanswm		6397
			Wrth Gefn		695
			Cyfanswm Tai Cyffredinol		7092

Diffiniadau

- Dyraniadau: tir a fydd yn cael ei gynnig ar gyfer ei ddatblygu yn y CDLI
- Wrth gefn: Safleoedd a adnabuwyd ar gyfer tai sydd ar restr wrth gefn i gael eu cyflwyno os bydd unrhyw broblemau annisgwyl wrth gyflawni'r safleoedd sydd wedi'u dyrannu. Mae'r elfen hon yn cynnig hyblygrwydd a byddai'r safleoedd yn cael eu rhyddhau yn unol â fframwaith monitro'r CDLI.
- Cwblhawyd: Yr holl unedau tai a gwblhawyd rhwng dechrau cyfnod y cynllun ac 1/4/2010.
- Caniatâd: Safleoedd tai mawr (10+ o unedau) sydd â chaniatâd cynllunio ar 1/4/2010 ond sydd heb gael eu hadeiladu
- Ar hap: Safleoedd heb eu dyrannu'n benodol ar gyfer eu datblygu ond sy'n dod i fod ar gael yn annisgwyl yn ystod oes y cynllun.
- Bae Colwyn – mae'n cynnwys Bae Colwyn, Llandrillo-yn-Rhos, Hen Golwyn a Mochdre.
- Prif Bentreffi Haen 1 – Dwygyfylchi, Glan Conwy, Llanddulas, Llysfaen.
- Prif Bentreffi Haen 2 – Betws-yn-Rhos, Cerrigydrudion, Dolgarrog, Eglwysbach, Llanfairtalhaiarn, Llangernyw, Llansannan, Tal y Bont / Castell a Threfriw.
- Pentrefi Llai – Bryn Pydew, Glanwydden, Groes, Henryd, Llanbedr-y-Cennin, Llaneilian, Llanddoded, Llangwm, Llanefydd, Pentrefelin, Pentrefoelas, Rhyd y Foel, Rowen, Llan San Siôr, Tal y Cafn a Thyn y Groes.
- Pentrefannau – Bodtegwel, Bryn y Maen, Brymbo, Bryn Rhyd yr Arian, Bylchau, Capelulo, Cefn Berain, Cefn Brith, Dinmael, Glan Rhyd, Glasfryn, Groesffordd, Gwytherin, Hendre, Llanfihangel Glyn Myfyr, Maerdy, Melin y Coed, Nebo, Pandy Tudur, Pentre Llyn Cymmer, Pentre Isa, Pentre Tafarn y Fedw, Rhydlydan, Tan y Fron.
- Cefn Gwlad Agored – gweddill ardal wledig y Cynllun.

Tabl 6: Canran y cynnydd yn nifer yr anheddau yn CDLI Conwy			
Ardal	Anheddau*	Niferoedd yn y CDLI**	% y Cynnydd
Abergele, Towyn a Bae Cinmel	8,543	1,133	13
Bae Colwyn, Mochdre	12176	1,512	12
Conwy, Llandudno a Chyffordd Llandudno	16,728	1,697	10
Llanfairfechan a Phenmaenmawr	2,780	335	12
Llanrwst	1,395	295	21
Ardal Strategaeth Wledig	9,237	849	9

Nodiadau

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001

**mae'n cynnwys safleoedd ar hap, dyraniadau a chaniatâd; nid yw'n cynnwys safleoedd wrth gefn

- Mae'n bwysig nodi bod lefelau twf tai fel y dynodir yn y tablau uchod yn adlewyrchu meintiau poblogaeth a strategaeth y CDLI.
- Bu'r cynyddiadau canrannol uchaf fesul ardal strategaeth yn Llanrwst ac Abergele. Mae cyfyngiadau ar y defnydd o dir yn yr ardal ddwyreiniol arfordirol, (perygl llifogydd yn enwedig) yn cyfyngu ar yr ardal y gellir ei datblygu yn Nhowyn a Bae Cinmel. Abergele fydd yn derbyn y rhan fwyaf o'r twf tai ar gyfer yr ardal (gweler BP/37 am fwy o wybodaeth). Fel y nodir uchod, fe barhaodd canran gyfartalog y siaradwyr Cymraeg ar gyfer ardal Abergele, Towyn a Bae Cinmel yn gyson, sef 16% rhwng 1991 a 2001. Yn Abergele, bu dirywiad yn wardiau Pentre Mawr a Gele o 2.4 a 0.5 yn y drefn honno, a bu cynnydd yn ward Abergele Pensarn o 2.3%. Mae nifer cyffredinol y siaradwyr Cymraeg sy'n 3 oed a throsodd wedi cynyddu yn yr ardal; fodd bynnag, nid yw wedi cynyddu yn ôl yr un gyfradd â thwf y boblogaeth rhwng 1991 a 2001. Er bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn Abergele wedi cynyddu 157 (6%) o 2,484 ym 1961 i 2,641 ym 1981 fe ostyngodd y gyfran gyffredinol o 32.3% i 18.9% o gyfanswm y boblogaeth (Ffynhonnell: Adroddiad Testun 6 Cynllun Lleol Colwyn Arfordirol, 1985). Dylid nodi bod cynnydd o 92 (14%) wedi bod yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ward Gele yn ystod yr amser hwn.

- Mae gan Lanrwst ganran uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae niferoedd a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg wedi parhau'n gyson, sef 62.8% a 66.5% ym 1991 ar gyfer wardiau Crwst a Gower a 63.3% a 66.4% yn 2001 yn y drefn honno.
- Nid yw safleoedd eithriadau y tu allan i ffiniau aneddiadau trefol yn cael eu cefnogi gan bolisi'r CDLI (DP/2 a HOU/1). Fodd bynnag, mae cyfle i gynnwys anghenion tai fforddiadwy aneddiadau 'gwledig' eraill yn yr ardal leol wrth ystyried cynlluniau eithriadau fforddiadwy 100% sydd am y ffin â Llanrwst, yn enwedig lle nad yw'r aneddiadau eraill yn cyflawni.
- Canfu arolwg a gynhaliwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg fod mwy na hanner yr ymatebwyr Cymraeg eu hiaith yng Nghonwy'n dysgu siarad Cymraeg yn y cartref. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Roedd y gyfran a ddysgodd siarad Cymraeg yn yr ysgol ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Roedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr Cymraeg eu hiaith yn siarad Cymraeg yn ddyddiol. Roedd y gyfran a oedd yn siaradwyr rhugl yr un fath â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Tabl 7: Ble ddysgodd pobl siarad Cymraeg

Ardal	Gartref (%)	Yn yr ysgol (%)	Rhywle arall (%)
BS Conwy	55	38	7
Cymru (Cyfanswm)	53	40	6

Ffynhonnell: Tabl 28, Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 (Bwrdd yr Iaith Gymraeg)
(Mae'r ffigyrau wedi'u talgrynnu i 100 gan eu bod yn seiliedig ar samplau)

Tabl 8: Pa mor aml y mae pobl yn siarad Cymraeg

Ardal	Yn ddyddiol (%)	Yn wythnosol (%)	Yn llai aml (%)	Byth (%)
BS Conwy	66	14	17	3
Cymru (Cyfanswm)	63	17	17	4

Ffynhonnell: Tabl 25, Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 (Bwrdd yr Iaith Gymraeg)

Tabl 9: Gallu pobl yn y Gymraeg				
Ardal	Rwy'n rhugl mewn Cymraeg (%)	Gallaf siarad cryn dipyn o Gymraeg (%)	Dim ond ychydig o Gymraeg y gallaf ei siarad (%)	Dim ond ychydig o eiriau y gallaf eu dweud yn Gymraeg (%)
BS Conwy	58	23	15	4
Cymru (Cyfanswm)	58	21	17	4

Ffynhonnell: Tabl 24, Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 (Bwrdd yr Iaith Gymraeg)

2. A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at gynnydd mewn mewnfudo?	
A allai hyn arwain at gynnydd parhaol yng nghyfran yr aelwydydd di-Gymraeg?	A fydd y newid yn un parhaol ynteu dros dro?

- Mae Adran 3 o BP/2 'Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd' yn trafod effeithiau tueddiadau ymfudo ar amcanestyniadau poblogaeth.
-

Tabl 10: Ystadegau ymfudo ar gyfer Conwy a Chymru (Ffynhonnell: Cyfrifiad, 2001)				
	Conwy		Cymru	
Yr holl bobl	109,596		2,903,085	
Pobl sy'n ymfudwyr	12,838	12%	324,133	11%
Wedi symud i mewn i'r ardal: O ran arall o'r DU	4,213	4%	-	-
Wedi symud i mewn i'r ardal: O'r tu allan i'r DU	296	0%	9,919	0%
Heb gyfeiriad arferol un flwyddyn cyn y Cyfrifiad	756	1%	19,736	1%
Wedi symud o fewn yr ardal	7,573	7%	-	-
Wedi symud allan o'r ardal*	3,478	-	-	-
Yr holl bobl mewn grwpiau ethnig heblaw 'Gwyn'	1,157		61,580	

Pobl sy'n ymfudwyr	203	18%	13,022	21%
Wedi symud i mewn i'r ardal: O ran arall o'r DU	73	6%	-	-
Wedi symud i mewn i'r ardal: O'r tu allan i'r DU	27	2%	2,532	4%
Heb gyfeiriad arferol un flwyddyn cyn y Cyfrifiad	24	2%	1,266	2%
Wedi symud o fewn yr ardal	79	7%	-	-
Wedi symud allan o'r ardal*	99	-	-	-

Tabl 11: Llifiadau ymfudo rhwng Bwrdeistref Sirol Conwy a Lloegr
(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009
	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010
Mewn-lifiad	3,380	3,430	3,600	2,900	2,900	3,050	2,760	2,660	2,610
All-lifiad	2,660	2,530	2,460	2,480	2,390	2,410	2,280	2,220	2,290
Net	730	900	1140	420	510	640	480	440	320

- Dros y cyfnod o'r flwyddyn a ddaeth i ben ar ganol 2005 i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar ganol 2009, Conwy oedd â'r nifer blynyddol cyfartalog uchaf o fewnfudwyr net (500) i Loegr yng Ngogledd Cymru gyfan; fodd bynnag, Gwynedd oedd â'r cyfraddau all-lifiad a mewnlifiad cyfartalog mwyaf yng Ngogledd Cymru (29 o bobl am bob mil o drigolion yn symud i mewn a 26 o bobl am bob mil o drigolion yn symud allan, o'i gymharu â 26 am bob mil a 21 am bob mil yng Nghonwy yn y drefn honno).
- O'r 500 o ymfudwyr net cyfartalog, roedd 320 yn y grŵp oedran 45-64, yr uchaf o'r holl grwpiau oedran. Roedd y golled fwyaf yn y grŵp oedran 16-24, sef 180.

Tabl 12: Llifiadau ymfudo rhwng BS Conwy a gweddill Cymru (Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009
	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010

Mewn-lifiad	1,980	1,740	1,640	1,540	1,740	1,860	1,830	1,770	1,800
All-lifiad	1,670	1,620	1,670	1,610	1,630	1,770	1,630	1,810	1,840
Net	310	120	-30	-60	110	90	200	-40	-40

- Yn y ddwy flynedd ddiwethaf o ddata bu colled net o ymfudwyr i weddill Cymru.
- Mae'r Cyngor wedi cynnal arolwg o feddianwyr tai newydd yn y gorffennol, gan edrych o ble mae pobl wedi symud ac ar nodweddion y meddianwyr, gan gynnwys eu gallu yn yr iaith Gymraeg. Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o arolygon o 1984 i'r presennol.
- Canfu arolwg 1984 o anheddau newydd yn ardal Colwyn Wledig gynt, o'r 233 o ymatebion a gafwyd, fod 43% yn aelwydydd Cymraeg eu hiaith (68% heb gynnwys Trefnant). Roedd 45 o'r 233 aelwyd (19%) yn rhai a oedd yn cael eu diffinio fel anghenion lleol, hynny yw, naill ai'n brynwyr am y tro cyntaf o'r ardal neu'n aelwydydd yr oedd eu cartref diwethaf o fewn Bwrdeistref Colwyn a lle'r oedd naill ai'r gŵr neu'r wraig yn gweithio yn y Fwrdeistref gan gynnwys pobl wedi ymddeol.
- Canfu arolwg 1984 o anheddau newydd ar chwe ystâd yn ardal Colwyn Arfordirol (heb gynnwys Colwyn Wledig i'r de o'r llain arfordirol), o'r 332 o ymatebion, fod 19% yn aelwydydd Cymraeg eu hiaith, yn debyg i ganlyniadau Cyfrifiad 1981. O'r 108 o aelwydydd a adnabuwyd fel anghenion lleol (gweler y diffiniad uchod), roedd 31% yn aelwydydd Cymraeg eu hiaith. Ac eithrio meddianwyr ar Ystâd Llanfron yn Llysfaen a Colwyn Heights, ychydig iawn oedd yn brynwyr am y tro cyntaf. Roedd nifer o'r aelwydydd nad oeddent yn brynwyr am y tro cyntaf wedi symud o'r tu allan i Gymru, yn enwedig ar ystadau yn Abergele, Llanddulas a Belgrano (ar Colwyn Heights roedd nifer wedi symud o'r ardal leol ac ardal Aberconwy gynt).
- Canfu arolwg Meddiannaeth Tai 1997, o'r 185 o ymatebion a gafwyd, fod 67% o'r ymatebwyr wedi bod yn byw ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn flaenorol, 13% yng ngweddill Cymru a 15% yn Lloegr. Yn Nhowyn a Bae Cinmel roedd 10% wedi dod o ran arall o'r Fwrdeistref Sirol, 40% o ran arall o Gymru a 50% o Loegr. Mae hyn yn cymharu â Llanfairfechan a Phenmaenmawr lle'r oedd 78% o ran arall o'r Fwrdeistref Sirol (nid oedd y 22% sy'n weddill wedi datgan o ble'r oeddent wedi symud). Ardal cyngor tref Conwy oedd â'r ganran uchaf o bobl a oedd wedi symud o fewn y Fwrdeistref Sirol - 81%.
- Yn Arolwg Meddiannaeth Tai 2005, o'r 255 o ymatebion a gafwyd, roedd 48.2% wedi bod yn byw yn y Fwrdeistref Sirol yn flaenorol, 18% wedi bod yn byw mewn rhan arall o Ogledd Cymru yn flaenorol a 30% wedi dod o ran arall o'r DU y tu allan i Gymru. Roedd

18% o'r ymatebwyr yn rhoi ymddeoliad fel rheswm dros symud; roedd 68% o'r rhain wedi bod yn byw y tu allan i Gymru yn flaenorol.

- O'r 144 o ymatebion a gafwyd i Arolwg Meddiannaeth Tai 2007, roedd 56% o'r ymatebwyr wedi bod yn byw yn y Fwrdeistref Sirol yn flaenorol, 12% wedi symud o ran arall o Ogledd Cymru a 28% o ran arall o'r DU y tu allan i Gymru. Roedd 11% o'r ymatebwyr wedi symud er mwyn ymddeol; roedd 94% o'r rhain wedi symud o'r tu allan i Fwrdeistref Sirol Conwy.
- Canfu Arolwg Meddiannaeth Tai 2011 fod 56% o'r ymatebwyr wedi bod yn byw ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn flaenorol cyn symud i'w heiddo presennol; roedd 18% wedi symud o ran arall o Ogledd Cymru a 21% o weddill y DU. Roedd bron i chwarter yr aelwydydd a ymatebodd ac a oedd wedi symud i Gonwy o'r tu allan i Gymru wedi symud o Swydd Gaer, gyda chwarter arall o ran arall o Ogledd-orllewin Lloegr. Roedd 16% o'r ymatebwyr wedi datgan mai ymddeol i'r ardal oedd eu prif reswm dros symud, gyda 14% yn datgan bod arnynt angen cartref llai a 14% yn datgan bod arnynt angen cartref mwy. Roedd 23% o'r holl aelwydydd a ymatebodd i'r arolwg yn rhai Cymraeg eu hiaith.
- (SYLWER: Ni ellir cyhoeddi'r ystadegau llawn oherwydd materion sy'n ymwneud â datgelu.)
- Dylid nodi bod yr arolygon hyn wedi bwrw golwg ar nodweddion meddianwyr y tai newydd. Nid yw'n bosib rhoi sylwebaeth o ran sut y mae'r nodweddion hyn yn wahanol i'r holl aelwydydd a symudodd o fewn yr ardal neu i mewn i'r ardal yn yr un cyfnod, gan nad ydym wedi cynnal arolwg o drigolion yr holl aelwydydd sydd wedi symud. Lle mae cymhariaeth yn bosib, dim ond â phoblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy ar y cyfan y gellir ei gwneud, ac felly dim ond darlun rhannol y mae'n ei roi o effaith tai newydd o fewn y farchnad dai ehangach.
- Fel y mae BP/2 yn datgan, ymfudo yw'r elfen allweddol o dwf y boblogaeth yn y Fwrdeistref Sirol; byddai cyfansymiau'r boblogaeth yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn heb fewnfudiad. Pa un a yw'r newid o ran mewnfudo yn effeithio ar nifer y siaradwyr Cymraeg, mae hynny'n ddibynnol i raddau helaeth ar yr ardal a'r cynigion ar gyfer yr ardal honno. Mae canlyniadau'r arolygon tai uchod yn dangos bod y mwyafrif o'r bobl sy'n symud i mewn i gartrefi newydd eisoes yn byw naill ai yng Nghonwy neu yng Ngogledd Cymru.
- Mae'n bwysig nodi, er bod 68% o'r aelwydydd Cymraeg eu hiaith wedi symud o ran arall o'r Fwrdeistref Sirol, bod 53% o'r aelwydydd di-Gymraeg wedi symud o ran arall o'r

Fwrdeistref Sirol. Fe symudodd 17% arall o siaradwyr Cymraeg o weddill Gogledd Cymru (Arolwg Meddiannaeth Tai 2011). Roedd 25% o'r aelwydydd di-Gymraeg wedi symud o weddill y DU y tu allan i Gymru.

- Mae'n bwysig bod y CDLI yn darparu cyflenwad digonol ac amrywiol o dai i gwrdd ag anghenion ei holl drigolion. Mae hyn yn cynnwys annog tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol, yn enwedig anghenion y boblogaeth ifancach.
- Ystyrir y bydd strategaeth y CDLI yn darparu ar gyfer y newidiadau a ragwelir yn y boblogaeth yn ystod cyfnod y Cynllun. Yn ardal strategaeth Abergele, er bod cyfran y siaradwyr Cymraeg, sef 16.6%, yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y Sir ac er gwaethaf gostyngiad amlwg yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg, ystyrir bod Abergele, ar sail rhifau yn unig, yn dal i fod yn gymuned Gymraeg. Mae'r Arolwg Meddiannaeth Tai wedi dangos ar sail tystiolaeth sampl bod datblygiadau yn Abergele yn annhebygol o ddarparu ar gyfer mewnfudwyr o'r tu allan i Gymru yn unig ac, yn wir, bod nifer o drigolion presennol Conwy a symudodd i anheddau newydd yn ddi-Gymraeg. Mae cyfle i dargedu trigolion newydd â seilwaith ar gyfer yr iaith Gymraeg, boed trwy farchnata neu gynlluniau dilynol trwy waith cymunedol gyda grwpiau lleol. Ceir mwy o wybodaeth yn adran chwech.
- Yn Llanrwst, mae lefelau'r twf yn adlewyrchu maint yr anheddiad, yr ystod o gyfleusterau a gwasanaethau ynddo a'r rôl ehangach y mae'n ei chyflawni yn Nyffryn Conwy gan gynnwys y cymorth y mae'n ei roi i'r prif bentrefi a'r pentrefi llai a'r pentrefannau yn yr ardal ehangach.

3. A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at gynnydd mewn allfudo?

A yw'r broses allfudo'n debygol o arwain at golli aelwydydd Cymraeg eu hiaith?

A fydd unrhyw newid yn barhaol ynteu dros dro?

Tabl 13: Pobl 3 oed a throsodd a aned yng Nghymru, fesul Ardal yn y Strategaeth Ofodol (Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001)

	Siaradwyr Cymraeg		Pobl Ddi-Gymraeg		CYFANSWM	
Abergele, Towyn a Bae Cinmel	2,323	33.7%	4,562	66.3%	6,885	12%

Bay Colwyn a Mochdre	4,394	34.5%	8,331	65.5%	12,725	23%
Conwy, Llandudno a Chyffordd Llandudno	7,116	40.8%	10,304	59.2%	17,420	31%
Llanfairfechan a Phenmaenmawr	2,384	64.7%	1,301	35.3%	3,685	7%
Llanrwst	1,754	76.8%	529	23.2%	2,283	4%
Ardal Strategaeth Wledig	8,439	68%	3,973	32%	12,412	22%

- Mae Tabl X uchod yn dangos bod y mwyafrif o siaradwyr Cymraeg a anwyd yng Nghymru wedi'u lleoli yn ardal strategaeth ofodol Llanrwst a'r ardal Strategaeth Datblygu Gwledig. Ar sail rhifau, yr ardal Strategaeth Datblygu Gwledig ac ardaloedd Conwy, Llandudno a Chyffordd Llandudno sydd â'r mwyaf o siaradwyr Cymraeg a aned yng Nghymru. Oherwydd dosbarthiad siaradwyr Cymraeg ar draws lleoliad daearyddol ehangach yn yr ardal Strategaeth Datblygu Gwledig, ystyrir ers peth amser mai'r ardal hon sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf o ran allgymudo ac effeithiau ar yr iaith Gymraeg.

4. A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at newid yn strwythur oedran y gymuned?	
Achos i siaradwyr Cymraeg ifanc / canol-oed / hŷn adael / symud i mewn i'r ardal, gan arwain at:	
Newidiadau mewn patrymau gweithgarwch traddodiadol, gan arwain at fwy o ddyhead i symud i ffwrdd?	Tensiynau cymdeithasol / methiant rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol

- Un o nodau'r Cynllun yw annog y boblogaeth ifancach yn awr ac yn y dyfodol i aros a gweithio yn yr ardal a hybu gweithlu sy'n weithgar yn economaidd. Dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar yr iaith gan y bydd y grwpiau oedran ifancach wedi elwa o addysg Gymraeg orfodol. Yng Nghyfrifiad 2001, y grŵp oedran 5-15 oedd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg o blith pob grŵp oedran ac mae'r grŵp yma'n cyrraedd

oedran gweithio yn ystod cyfnod y Cynllun, felly bydd o'r pwys mwyaf ein bod yn cadw'r boblogaeth hon.

- Mae'r CDLI yn cydnabod bod y boblogaeth yn mynd yn hŷn. Mae'n flaenoriaeth yn y CDLI i roi anogaeth i gadw pobl ifancach yn eu cymunedau, blaenoriaeth a fydd yn cael ei chyflawni trwy gynnig dewis o anghenion tai wedi'u dosbarthu'n ofodol ar draws ardal y Cynllun, gan gynnwys darparu tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol, gan ddarparu ar gyfer ystod o anghenion cyflogaeth boed trwy hybu cyfleoedd cyflogaeth â gwerth uchel a datblygiad sgiliau o fewn ac o amgylch y canolbwyntiau arfordirol strategol neu drwy roi anogaeth i gryfhau ac arallgyfeirio'r economi wledig. Bydd diwygio canllawiau cenedlaethol (PCC, TAN 6) o gymorth i ddiwallu'r anghenion hyn.
- Mae'n anodd rhagweld ystod yr effaith ar wahanol ardaloedd cyngor cymuned ar draws yr ACLI. Mae ffactorau eraill i'w hystyried yn cynnwys darparu cyfleusterau a gwasanaethau mewn aneddiadau (yn anad dim, siop leol, ysgol leol a gwasanaeth bysiau), cost tai a allai gyfyngu grwpiau oedran ifancach ac agosrwydd un ardal at y llall o ran cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth.
- Un duedd sy'n datblygu o ganlyniad i'r boblogaeth sy'n mynd yn hŷn yw darparu cynlluniau preswyl gofal ychwanegol mewn ardaloedd trefol. Mae nifer o'r cynlluniau hyn wedi cael eu hadnabod dros y pum mlynedd ddiwethaf. Yn sicr, mae manteision i gynlluniau o'r fath, yn enwedig lle maent o bosib yn rhoi'r cyfle i drigolion barhau i fyw'n annibynnol i ryw raddau, yn ogystal â galluogi trigolion i aros yn eu tref neu bentref genedigol. Bydd cynlluniau o'r fath yn cael eu monitro'n fanwl yn y CDLI gan y gallai hyn effeithio ar y strwythur oedran mewn rhai ardaloedd, er ei bod yn anodd rhagweld effeithiau sylweddol ar yr iaith Gymraeg.

5. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar iechyd pobl leol?	
Cynyddu'r risg o salwch, ac felly ei gwneud yn llai dymunol bwy yn y gymuned?	Gwneud bywyd yn ddrutach o bosib, gan felly gynyddu'r risg o broblemau ariannol / straen ymhlith y boblogaeth Gymraeg leol

- Mae adran pump o 'Proffil Ardal ar gyfer Conwy' ²(2010) yn rhoi trosolwg o iechyd a lles yn y Fwrdeistref Sirol. Yn gryno, mae disgwyliad oes yng Nghonwy'n gymharol uchel,

²http://www.conwy.gov.uk/upload/public/attachments/435/An_area_profile_for_Conwy_County_Borough_v4_2010.pdf

gyda chyfraddau marwolaeth safonedig isel. Gan fod gan y sir gyfran uchel o bobl oedrannus yn ei phoblogaeth, mae rhai mesurau iechyd a lles yn cael eu camystumio gan y strwythur oedran.

- Ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011 roedd dwy Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is o Gonwy yn y 10% isaf yng Nghymru dan y pennawd ‘iechyd’, yng Nglyn 2 a Thowyn. I egluro, mae dangosyddion iechyd yn cynnwys nifer yr achosion o ganser, y gyfradd marwolaeth o bob achos, canran y genedigaethau unigol byw dan 2.5kg ac afiechyd hirdymor cyfyngol.

Tabl 14: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru) - Iechyd		
ACEHI	Safle yn 2011	Safle yn 2008
Glyn (Conwy) 2	122	50
Towyn	164	292

Nodiadau

System gymharol o fesur yw'r safleoedd; gallwn wybod pa ardaloedd sy'n fwy (neu'n llai) amddifadus na'i gilydd, ond nid o faint. Er enghraifft, os yw ardal A yn y 100fed safle ac ardal B yn y 300fed safle, nid yw'n dilyn bod A deirgwaith yn fwy amddifadus na B. Mae'n amhosib gwybod a yw newid mewn safle'n newid gwirioneddol yn lefel amddifadedd ardal, ynteu a yw wedi deillio o gynnydd neu ostyngiad yn sgorau ardaloedd eraill.

- Mae'r CDLI yn dyrannu safleoedd at ddibenion tai a chyflogaeth i gwrdd â'r angen a adnabuwyd. Ni ystyrir bod y datblygiadau a gynigir yn debygol o effeithio'n negyddol ar iechyd a lles pobl leol. Mae polisïau yn y CDLI yn ceisio sicrhau nad yw cynigion yn achosi amddifadedd iechyd trwy hybu ansawdd dylunio (polisi DP/3) a sicrhau na cheir effaith anffafriol ar amwynder preswyl (polisi DP/4). Ar ben hynny, mae polisïau'n ceisio darparu mannau agored cyhoeddus mewn datblygiadau newydd (CFS/11), diogelu mannau agored presennol (CFS/12) a gwarchod a gwella buddiannau bioamrywiaeth (NTE/4). Bydd cyfraniadau ariannol yn ofynnol tuag at gostau seilwaith ar gyfer datblygiadau i ddechrau trwy rwymedigaethau cynllunio (Canllawiau Cynllunio Atodol – LDP/4) ac yn ddiweddarach yng nghyfnod y Cynllun, trwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Bydd Briffiau Datblygu ac Uwchgynlluniau'n mynd i'r afael â chydlynu datblygiad mewn aneddiadau a dwyn ymlaen unrhyw waith sy'n ofynnol o ran y seilwaith (gweler hefyd BP/30 – Cynllun Fesul Cam).

6. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar amwynder yr ardal leol?	
Dirywio ansawdd yr amgylchedd, gan felly ei gwneud yn llai dymunol byw yn y gymuned?	

- Mae MALIC yn cynnwys categori ar gyfer yr 'amgylchedd ffisegol', gyda dangosyddion ar gyfer allyriadau i'r aer, ansawdd yr aer, perygl llifogydd ac agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a diwydiannol. Mae'r ACEHI canlynol yn y 10% isaf yng Nghymru ar gyfer y categori hwn. Er mai ychydig o safleoedd sydd wedi'u dyrannu yn yr ACEHI sydd yn y 10% isaf ar gyfer y categori hwn, dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu a gyflwynir gael eu hasesu gan ddefnyddio polisïau dylunio ac amwynder perthnasol i wella'r strydlyn.

Tabl 15: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru) – Yr Amgylchedd Ffisegol		
ACEHI	Safle yn 2011	Safle yn 2008
Bae Cinmel 4	111	118
Bae Cinmel 2	132	164
Bae Cinmel 1	140	216
Bae Cinmel 3	148	151
Tudno 1	150	225
Conwy 1	162	227
Mostyn (Conwy) 2	170	281
Towyn	173	286
Tudno 2	184	353

Nodiadau

System gymharol o fesur yw'r safleoedd; gallwn wybod pa ardaloedd sy'n fwy (neu'n llai) amddifadus na'i gilydd, ond nid o faint. Er enghraifft, os yw ardal A yn y 100fed safle ac ardal B yn y 300fed safle, nid yw'n dilyn bod A deirgwaith yn fwy amddifadus na B. Mae'n amhosib gwybod a yw newid mewn safle'n newid gwirioneddol yn lefel amddifadedd ardal, ynteu a yw wedi deillio o gynnydd neu ostyngiad yn sgorau ardaloedd eraill.

- Bydd y CDLI yn sicrhau bod datblygiadau arfaethedig yn gydnaws o ran eu hagosrwydd at ddefnyddiau cyfagos ac yn dilyn egwyddorion datblygu cynaliadwy, er enghraifft, blaenoriaethu datblygiadau ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol uwchlaw datblygiadau ar dir maes glas ac annog y defnydd o gludiant cynaliadwy.
- Fel y nodir yng nghwestiwn pump, mae'r CDLI yn cynnwys polisïau i sicrhau nad yw cynigion datblygu'n effeithio'n niweidiol ar amwynder ardal, gan gynnwys polisïau DP/1, DP/3, DP/4, CFS/11, CFS/12 a NTE/4.

7. A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at y bygythiad o gynnydd mewn troseddau neu drais yn y gymuned?

Cynyddu'r risg o droseddau neu drais, ac felly ei gwneud yn llai dymunol byw yn y gymuned?

- O ran cyfraddau troseddau ar y cyfan, mae Bwrdeistref Sirol Conwy yn un o'r lleoedd mwyaf diogel i fyw yng Nghymru a Lloegr, gydag ychydig dros 7,000 o droseddau cofnodedig yn 2010-11, cyfradd o 63 o droseddau am bob 1,000 o bobl o'i gymharu â chyfradd o 68 yng Nghymru a 76 yng Nghymru a Lloegr (Ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru).
- Mae MALIC yn cynnwys categori ar gyfer 'diogelwch cymunedol'. Mae'r ACEHI canlynol yn y 10% isaf yng Nghymru ar gyfer y categori hwn.

Tabl 16: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru) – Diogelwch Cymunedol

ACEHI	Safle yn 2011	Safle yn 2008
Glyn (Conwy) 2	7	26
Llysfaen 1	149	54
Gogarth 1	168	145
Glyn (Conwy) 1	187	131

Nodiadau

System gymharol o fesur yw'r safleoedd; gallwn wybod pa ardaloedd sy'n fwy (neu'n llai) amddifadus na'i gilydd, ond nid o faint. Er enghraifft, os yw ardal A yn y 100fed safle ac ardal B yn y 300fed safle, nid yw'n dilyn bod A deirgwaith yn fwy amddifadus na B. Mae'n

amhosib gwybod a yw newid mewn safle'n newid gwirioneddol yn lefel amddifadedd ardal, ynteu a yw wedi deillio o gynnydd neu ostyngiad yn sgorau ardaloedd eraill.

- Mae cyswllt agos iawn rhwng lles pobl, amwynder ardal a chanfyddiad cymuned am y risg o droseddau neu drais mewn cymuned ar y naill law a dyluniad ardal ar y llaw arall, gan gynnwys y ffurf drefol a darparu mannau agored a hamdden.
- Fe gyhoeddodd Llywodraeth y DU ganllawiau ar y system gynllunio ac atal troseddau, a oedd yn dwyn y teitl 'Safer Places' yn 2004:
<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20110118095356/http://www.cabe.org.uk/files/safer-places.pdf>
- Mae'r CDLI yn cynnwys polisi ar egwyddorion datblygu cynaliadwy ac ansawdd dylunio a gostwng troseddau (polisi DP/3) boed yn y dyluniad ar gyfer adeilad neu mewn cynllun a chyd-destun ehangach; ategir hyn gan ganllawiau cenedlaethol gan fod categori 'diogelwch cymunedol' wedi'i gynnwys yn TAN 12: Dylunio a gofyniad i gyflwyno Datganiadau Dylunio a Mynediad i ystyried troseddau a diogelwch cymunedol mewn cais datblygu. Yn ogystal â hynny, bydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ddylunio'n cael eu cyhoeddi gyda'r CDLI a byddant yn cynnwys adran ar ddiogelwch cymunedol.
- Gall fod ardaloedd â chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg sydd â chyfraddau troseddau neu sgorau mynegai amddifadedd lluosog uwch na'r cyfartaledd; fodd bynnag, mae'n anodd cadarnhau unrhyw gyswllt uniongyrchol yn ogystal ag unrhyw wahaniaethau rhwng cymunedau Cymraeg a chymunedau di-Gymraeg.

8. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith niweidiol ar fusnesau lleol?	
Achos i fusnesau – Cymraeg – lleol orfod cau o bosib, oherwydd:	
Gostyngiad yn y boblogaeth leol ar y cyfan?	Cynnydd mewn trigolion di-Gymraeg?
Cynnydd mewn cystadleuaeth niweidiol / ddefnyddiol?	

- Mae strategaeth cyflogaeth y CDLI yn cynnwys aneddiadau trefol a gwledig, gan hybu swyddi o ansawdd uchel ac arallgyfeirio'r economi wledig. Mae Cynllun Gofodol Cymru'n adnabod canolbwyntiau strategol yng Nghonwy, Llandudno a Chyffordd

Llandudno a'r Rhyl, Llanellwyr, Bodelwyddan, Prestatyn (oll yn ardal Cyngor Sir Ddinbych) a Bae Cinmel. Mae dosbarthiad tir cyflogaeth sy'n deillio o ostyngiad mewn allgymudo wedi'i ddyrannu o fewn lleoliadau'r canolbwyntiau strategol ac mewn lleoliad hygyrch a chynaliadwy yn Abergele.

- Mae'r strategaeth economaidd yn cynnwys polisiau EMP/4 ac EMP/5 sy'n ceisio diogelu'r stoc bresennol o safleoedd swyddfeydd a chyflogaeth a gwella safleoedd presennol. Ceir rhestr o'r safleoedd hyn yn BP/13 ac fe'u dangosir ar y Map Cynigion.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd rhoi cymorth i fusnesau presennol a newydd yn cynorthwyo cymunedau lleol i ffynnu, yn datblygu sgiliau ac yn helpu i leihau'r angen i bobl gymudo dros bellterau hir i weithio. Mae'r dull polisi'n ddigon hyblyg i sicrhau bod cynigion priodol newydd ar gyfer cyfleoedd i ddarparu cyflogaeth leol hefyd yn cael eu hannog ar safleoedd heb eu dyrannu. Mae o'r pwys mwyaf diogelu a gwella sefyllfa'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg yn ogystal â'r amgylchedd.
- Mae'r strategaeth economaidd yn annog cyfleoedd cyflogaeth ar raddfa lai y tu allan i aneddiadau trefol fel bod mentrau gwledig yn gallu datblygu a chyfrannu at yr economi leol ac ehangach. Gall hyn hefyd gynnwys darparu anheddau mentrau gwledig, a ategir mewn canllawiau cynllunio cenedlaethol gan TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy boed trwy ddyrannu safleoedd newydd yn neu'n agos at brif bentrefi neu drwy droi adeiladau'n rhai a ddefnyddir ar gyfer cyflogaeth a'r cymorth ar gyfer anheddau mentrau gwledig.
- Mae canolfannau adwerthu wedi'u dynodi yn y CDLI gan gynnwys polisiau ar gyfer cadw swyddogaethau canolfannau adwerthu. Yn ogystal â hynny, mae polisi CDFS/6 o'r CDLI yn diogelu cyfleusterau cymunedol y tu allan i'r prif ganolfannau siopa (hynny yw, aneddiadau llai sy'n cynnwys yr ardal strategaeth datblygu gwledig), gan gynnwys busnesau lleol megis siopau sy'n gwerthu nwyddau cyfleus a thafarndai oherwydd eu rôl wrth gynnal canolfannau llai a chyflawni swyddogaeth gymunedol bwysig, yn enwedig yn yr aneddiadau gwledig sydd i raddau helaeth yn Gymraeg eu hiaith.
- Mae'r CDLI hefyd yn amcanu at roi cymorth i dwristiaeth trwy ddiogelu a gwella atyniadau a llety twristaidd mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol a manteisio ymhellach ar y potensial i ddatblygu, cryfhau ac annog diwydiant twristiaeth trwy gydol y flwyddyn.
- Mae'r CDLI wedi rhoi sylw i Gynllun Datblygu Gwledig Conwy 2007-2013 sy'n rhoi anogaeth i ddiogelu'r amgylchedd gwledig a hybu economi gwledig gynaliadwy.

9. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith niweidiol ar swyddi lleol?


Creu swyddi i'r boblogaeth –
Gymraeg - leol (o bosib gan fod pobl
Gymraeg yn meddu ar y sgiliau
cywir)?

Bygwth swyddi'r boblogaeth –
Gymraeg – leol (o bosib trwy achosi i
fusnesau lleol gau)

Tabl 17: Grwpiau Galwedigaeth yng Nghonwy (Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001)

	Abergele, Towyn a Bae Cinnel		Bae Colwyn a Mochdre		Conwy, Llandudno a Chyffordd Llandudno		Llanfairfechan a Phenmaenmawr		Llanrwst		Wardiau Gwledig	
Yr holl bobl 16 - 74 oed mewn gwaith	6,199		10,007		13,729		2,531		1,256		9,425	
Rheolwyr ac Uwch Swyddogion	879	14.2%	1,495	14.9%	2,193	16%	294	11.6%	140	11.1%	1,241	13.2%
Galwedigaethau Proffesiynol	433	7%	1,045	10.4%	1,195	8.7%	257	10.2%	90	7.2%	1,059	11.2%
Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiedig	728	11.7%	1,252	12.5%	1,588	11.6%	375	14.8%	90	7.2%	1,139	12.1%
Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol	721	11.6%	1,136	11.4%	1,420	10.3%	206	8.1%	112	8.9%	821	8.7%
Galwedigaethau masnachau crefftus	864	13.9%	1,201	12%	1,676	12.2%	330	13%	210	16.7%	2,000	21.2%
Galwedigaethau gwasanaethau personol	594	9.6%	1,020	10.2%	1,307	9.5%	315	12.4%	129	10.3%	794	8.4%
Galwedigaethau gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid	605	9.8%	838	8.4%	1,358	9.9%	174	6.9%	105	8.4%	562	6%
Gweithredwyr prosesau, peirianwaith a pheiriannau	593	9.6%	709	7.1%	943	6.9%	246	9.7%	163	13%	725	7.7%
Galwedigaethau elfennol	782	12.6%	1,311	13.1%	2,049	14.9%	334	13.2%	217	17.3%	1,084	11.5%

Ffigur 4: Y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl rhyw a galwedigaeth (Cyfrifiad 2001)



Ffynhonnell: Darlun Ystadegol o Sefyllfa'r Gymraeg (Hywel M. Jones, 2012) – ar gael ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. SYLWER: ffigyrau ar gyfer Cymru, ac nid Conwy, yw'r rhain.

Tabl 18: Cymwysterau a Myfyrwyr yng Nghonwy (Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001)												
	Abergele, Towyn a Bae Cinnel		Bae Colwyn a Mochdre		Conwy, Llandudno a Chyffordd Llandudno		Llanfairfechan a Phenmaenmawr		Llanrwst		Wardiau Gwledig	
Yr holl bobl 16 – 74 oed	12,407		17,919		24,034		4,405		2,080		14,964	
Dim	4,960	40.0%	5,278	29.5%	7,430	30.9%	1,383	31.4%	814	39.1%	4,327	28.9%
Lefel 1	1,938	15.6%	2,808	15.7%	3,648	15.2%	675	15.3%	342	16.4%	2,353	15.7%
Lefel 2	2,285	18.4%	3,986	22.2%	5,252	21.9%	885	20.1%	400	19.2%	3,207	21.4%
Lefel 3	629	5.1%	1,201	6.7%	1,574	6.5%	249	5.7%	106	5.1%	928	6.2%
Lefel 4/5*	1,545	12.5%	3,275	18.3%	4,254	17.7%	886	20.1%	272	13.1%	3,046	20.4%

Arall / lefel yn anhys bys	1,050	8.5%	1,371	7.7%	1,876	7.8%	327	7.4%	146	7.0%	1,103	7.4%
--	-------	------	-------	------	-------	------	-----	------	-----	------	-------	------

Diffiniadau

Lefel 1 = Llwyddo mewn 1+ Lefel 'O'; 1+ TAU/TGAU unrhyw raddau; NVQ lefel 1; GNVQ Sylfaen.

Lefel 2 = Llwyddo mewn 5+ Lefel 'O'; 5+ TAU (graddau 1); 5+ TGAU (graddau A-C); Tystysgrif Ysgol; 1+ Safon Uwch/Safon UG; NVQ lefel 2; GNVQ Canolradd.

Lefel 3 = 2+ Safon Uwch; 4+ Safon UG; Tystysgrif Ysgol Uwch; NVQ lefel 3; GNVQ Uwch.

Lefel 4/5 = Gradd gyntaf; Gradd uwch; NVQ lefelau 4 a 5; HNC; HND; Statws Athro Cymwysedig/Athrawes Gymwysedig; Meddyg Cymwysedig; Deintydd Cymwysedig; Nyrs Gymwysedig; Bydwraig; Ymwelydd Iechyd.

- Mae strategaeth cyflogaeth y CDLI yn cynnwys aneddiadau trefol a gwledig, gan hybu swyddi o ansawdd uchel a chryfhau ac arallgyfeirio'r economi wledig. Mae Cynllun Gofodol Cymru'n adnabod canolbwyntiau strategol yng Nghonwy, Llandudno a Chyffordd Llandudno a'r Rhyl, Llanelwy, Bodelwyddan, Prestatyn a Bae Cinmel. Mae hyn yn rhan o ymgais i leihau allgymudo gan weithwyr.
- Mae MALIC (gweler cwestiwn pump) yn cynnwys categori ar gyfer 'cyflogaeth'. Mae'r ACEHI canlynol yn y 10% isaf yng Nghymru ar gyfer y categori hwn.

Tabl 19: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru) – Cyflogaeth		
ACEHI	Safle yn 2011	Safle yn 2008
Glyn (Conwy) 2	7	25
Rhiw 3	34	33
Abergele Pensarn	97	74
Tudno 2	153	121

Nodiadau

System gymharol o fesur yw'r safleoedd; gallwn wybod pa ardaloedd sy'n fwy (neu'n llai) amddifadus na'i gilydd, ond nid o faint. Er enghraifft, os yw ardal A yn y 100fed safle ac ardal B yn y 300fed safle, nid yw'n dilyn bod A deirgwaith yn fwy amddifadus na B. Mae'n amhosib gwybod a yw newid mewn safle'n newid gwirioneddol yn lefel amddifadedd ardal, ynteu a yw wedi deillio o gynnydd neu ostyngiad yn sgorau ardaloedd eraill.

- Mae'r CDLI, trwy'r CCA ar Rwymedigaethau Cynllunio, yn rhoi blaenoriaeth i gyflogi gweithwyr lleol a datblygu eu sgiliau. Lle cynigir busnes newydd ar diroedd yn y Fwrdeistref Sirol mae'n ofyniad polisi i roi swyddi i bobl lleol ac uwchsgilio'r gweithlu lle bo'n annigonol.


10. A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd?	
Arwain o bosib at nifer uwch o swyddi gwahanol i'r boblogaeth – Gymraeg - leol oherwydd arallgyfeirio economaidd?	Arwain at gynnydd mewn mewnfudiad ymhlith pobl ddi-Gymraeg?

- Mae canllawiau cenedlaethol yn TAN 6 hefyd yn ategu'r amcan i greu cymunedau gwledig cynaliadwy a darparu cyfleoedd cyflogaeth, boed trwy ddyrannu safleoedd newydd yn neu'n agos at brif bentrefi neu drwy droi adeiladau'n rhai a ddefnyddir ar gyfer cyflogaeth a'r cymorth ar gyfer anheddau mentrau gwledig.
- Ni ragwelir y bydd y CDLI yn arwain at fewnfudiad sylweddol gan bobl ddi-Gymraeg oherwydd mwy o arallgyfeirio economaidd. Fodd bynnag, bydd yn bwysig monitro lefelau creu swyddi a'r mathau o swyddi sy'n cael eu creu ac annog, lle y bo'n briodol (yn unol â CCA LDP6), contractau llafur lleol a chymorth i fentrau hyfforddiant lleol, yn ogystal â hyfforddiant iaith (gweler mesurau lliniaru isod). Mae bron yn sicr y bydd peth mewnfudiad (a allai'n realistig gynnwys siaradwyr Cymraeg o gymunedau yng Ngwynedd a Sir Ddinbych ac o rannau eraill o Gymru) ond dylid ystyried hyn ochr yn ochr â'r nod yn y CDLI i gadw pobl ifancach a'r rheiny â sgiliau.

Tabl 20: Diwydiant Cyflogaeth yng Nghonwy (Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001)

	Abergele, Towyn a Bae Cinnel		Bae Colwyn a Mochdre		Conwy, Llandudno a Chyffordd Llandudno		Llanfairfechan a Phenmaenmaw r		Llanrwst		Wardiau Gwledig	
Yr holl bobl 16 - 74 oed mewn gwaith	6,198		10,006		13,728		2,531		1,256		9,418	
Amaethyddiaeth	84	1.4%	129	1.3%	167	1.2%	53	2.1%	38	3%	869	9.2%
Ynni, dŵr, mwyngloddio	64	1%	127	1.3%	138	1%	47	1.9%	17	1.4%	112	1.2%
Gweithgynhyrchu	757	12.2%	938	9.4%	1,239	9%	248	9.8%	169	13.5%	914	9.7%
Adeiladu	526	8.5%	702	7%	981	7.1%	207	8.2%	133	10.6%	909	9.7%
Dosbarthu, gwestai, arlwyo	1,753	28.3%	2,676	26.7%	4,579	33.4%	568	22.4%	362	28.8%	2,146	22.8%
Trafnidiaeth	317	5.1%	506	5.1%	708	5.2%	113	4.5%	70	5.6%	402	4.3%
Bancio, cyllid, yswiriant	170	2.7%	281	2.8%	337	2.5%	38	1.5%	26	2.1%	169	1.8%
Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg, iechyd	1,747	28.2%	3,306	33%	3,698	26.9%	947	37.4%	305	24.3%	2,684	28.5%
Arall	780	12.6%	1,341	13.4%	1,881	13.7%	310	12.2%	136	10.8%	1,213	12.9%

Ffigur 5: Y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl rhyw a diwydiant (Cyfrifiad 2001)



Ffynhonnell: Darlun Ystadegol o Sefyllfa'r Gymraeg (Hywel M. Jones, 2012) – ar gael ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. SYLWER: ffigyrau ar gyfer Cymru, ac nid Conwy, yw'r rhain.

- Mae darparu ar gyfer twf cynaliadwy mewn ardaloedd lle mae canran uwch o siaradwyr Cymraeg yn sicrhau bod traddodiadau lleol yn gallu parhau. Mae hyn yn cynnwys darparu tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol a chyfleoedd i gael cyflogaeth leol ar gyfer pobl a allai fod yn rhan o grwpiau gweithgarwch lleol. Mae Amcan SO5 yn rhoi anogaeth i gryfhau ac arallgyfeirio'r economi wledig sy'n gydnaws â'r economi, y gymuned a'r amgylchedd lleol. Mae adran 4.3.12 yn y CDLI yn ategu'r amcan i arallgyfeirio ffermydd yn unol â pholisi DP/6 (Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol) a TAN 6 adran 3.7.
- Mae paragraff 4.3.2.1 o'r CDLI yn nodi'r heriau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, ac ymhlith y rhain mae datblygu cyfleoedd cyflogaeth newydd â gwerth uwch yn lleol a datblygu economi sy'n seiliedig ar sgiliau a gwybodaeth. Yn ddelfrydol, dylai mentrau cyflogaeth o'r fath ddarparu gyrfaoedd parhaol a fydd yn denu pobl ifanc i'r ardal ac yn eu cadw yn yr ardal.
- Mae'r adroddiad Dyfodol Economaidd yn cynnwys asesiad o effeithiau ehangach newid sectoraidd gan gynnwys ystyried sgiliau'r economi iaith. Dan sector yr Economi Wybodaeth / TGCh, mae'r adroddiad yn datgan, o gofio'r gofynion o ran sgiliau mwy

arbenigol – ac felly dalgylch mwy ar gyfer y farchnad lafur – nad yw'n sector sy'n arbennig o gysylltiedig â siaradwyr Cymraeg; fodd bynnag, mae'r adroddiad wedyn yn datgan, i'r graddau y mae'r sector yn cynnig swyddi â chyflog gwell, y gall fod yn arbennig o addas i helpu i gadw pobl (Gymraeg) ifancach.

- Dan y sector Hamdden a Thwristiaeth / Twristiaeth Busnes, mae'r adroddiad yn datgan bod gwestai ac arlwy'o'n cynnwys nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg. Mewn rhai gweithgareddau penodol bydd ffafriaeth o blaid defnyddio pobl leol, yn enwedig mewn perthynas â diwylliant ac asedau naturiol lleol lle mae angen am ddehongli lleol.
- Ar gyfer y sector Iechyd a Gofal, mae'r adroddiad yn datgan bod ymchwil gan Ysgol Fusnes Caerdydd (Capitalising on language and culture, scoping study: Language-Culture-Economy, 2005) yn nodi'r sector iechyd fel un lle mae'r iaith Gymraeg yn bwysig. Rhagwelir y bydd hyn yn parhau o ystyried y gyfradd gymharol uchel o ran cyflogi gweithwyr lleol a'r gyfran uchel o siaradwyr Cymraeg sy'n debygol ymhlith cleifion a'r boblogaeth oedrannus yn fwy cyffredinol.

11. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar lefelau tâl / cyflog lleol?

Cynyddu / gostwng lefelau tâl / cyflogau o bosib o ganlyniad i gystadleuaeth gynyddol yn y gweithlu / rhwng busnesau?

- Ni ragwelir bod polisiâu a dyraniadau safleoedd y CDLI yn debygol o effeithio'n uniongyrchol ar lefelau cyflogau ac/neu brisiau tai lleol.
- Mae'r CDLI yn amcanu at ddarparu cyfleoedd cyflogaeth â gwerth uwch a datblygiad sgiliau o fewn ac o amgylch y canolbwyntiau strategol arfordirol trefol. Fe allai hyn effeithio'n gadarnhaol ar lefelau cyflogau lleol ond fe allai hefyd effeithio ar brisiau tai yn agos at y datblygiadau sy'n creu cyflogaeth newydd.
- Mae MALIC (gweler cwestiwn pump) yn cynnwys categori ar gyfer 'cyflogaeth'. Mae'r ACEHI canlynol yn y 10% isaf yng Nghymru ar gyfer y categori hwn.

Tabl 21: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru) – Incwm

ACEHI	Safle yn 2011	Safle yn 2008
Glyn (Conwy) 2	52	69

Llysfaen 1	71	239
Tudno 2	72	198

Nodiadau

System gymharol o fesur yw'r safleoedd; gallwn wybod pa ardaloedd sy'n fwy (neu'n llai) amddifadus na'i gilydd, ond nid o faint. Er enghraifft, os yw ardal A yn y 100fed safle ac ardal B yn y 300fed safle, nid yw'n dilyn bod A deirgwaith yn fwy amddifadus na B. Mae'n amhosib gwybod a yw newid mewn safle'n newid gwirioneddol yn lefel amddifadedd ardal, ynteu a yw wedi deillio o gynnydd neu ostyngiad yn sgorau ardaloedd eraill.

Tabl 22: Incwm blynyddol aelwydydd (2011)			
	BS Conwy	Cymru	Prydain Fawr
Incwm canolrifol	£25,300	£25,150	£29,000
Incwm yn y chwarterl isaf	£14,550	£14,300	£16,350
% yr aelwydydd ag incwm islaw 60% o'r canolrif ym Mhrydain Fawr	31.9%	32.4%	27.2%

Ffynhonnell: Data PayCheck CACI

- Mae mesurau o incwm aelwydydd yn cynnwys cyflog, cymorth lles, buddsoddiadau, pensiynau ac incwm arall ar gyfer holl aelodau'r aelwyd. Bu cynnydd o tua £350 yn incwm blynyddol cyfartalog (canolrifol) aelwydydd rhwng 2010 a 2011 i £25,300. Yn yr un cyfnod daeth yr aelwydydd â'r incwm isaf i fod yn waeth eu byd – bu gostyngiad o £200 yn incwm yr aelwydydd yn y chwarterl isaf i £14,550 yn unig ac fe gynyddodd y gyfran o'r aelwydydd ag incwm islaw 60% o'r canolrif ar gyfer Prydain Fawr. Mae hyn yn adlewyrchu'r darlun cenedlaethol.

12. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar gost cyfartalog tai?	
Gorfodi pobl – Gymraeg – leol i adael y gymuned?	Arwain o bosib at gynnydd mewn digartrefedd / straen tai ymhlith aelwydydd – Cymraeg - lleol?
Atal pobl Gymraeg leol rhag dychwelyd i'r ardal / gymuned?	

Tabl 23: Prisiau tai ac incwm aelwydydd fesul ward, 2008 (Ffynhonnell: Data PayCheck CACI; data ar brisiau tai gan y Gofrestrfa Tir; Uned Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol)

	Pris Tai		Incwm aelwydydd		Cymhareb pris tai:incwm		Nifer a werthwyd (ar gyfer ardal LHMA*)
	Canolrifol	Chwartel isaf	Canolrifol	Chwartel isaf	Canolrifol	Chwartel isaf	
Bwrdeistref Sirol Conwy	£145,000	£110,000	£25,200	£15,900	5.8	6.9	1,333
Abergele Pensarn	£139,500	£105,000	£24,800	£15,700	5.6	6.7	607
Betws yn Rhos	£176,000	£126,625	£28,800	£18,000	6.1	7.0	134
Betws-y-Coed	£150,000	£105,750	£25,000	£15,900	6.0	6.7	98
Bryn	£152,000	£117,750	£25,400	£16,000	6.0	7.4	571
Caerhun	£150,000	£105,750	£25,000	£15,900	6.0	6.7	98
Capelulo	£160,000	£120,000	£25,600	£16,100	6.3	7.5	463
Colwyn	£139,500	£105,000	£24,800	£15,700	5.6	6.7	607
Conwy	£160,000	£120,000	£25,600	£16,100	6.3	7.5	463
Craig-y-Don	£160,000	£120,000	£25,600	£16,100	6.3	7.5	463
Crwst	£150,000	£105,750	£25,000	£15,900	6.0	6.7	98
Deganwy	£160,000	£120,000	£25,600	£16,100	6.3	7.5	463
Eglwysbach	£150,000	£105,750	£25,000	£15,900	6.0	6.7	98
Eirias	£139,500	£105,000	£24,800	£15,700	5.6	6.7	607
Gele	£139,500	£105,000	£24,800	£15,700	5.6	6.7	607
Glyn	£139,500	£105,000	£24,800	£15,700	5.6	6.7	607
Gogarth	£160,000	£120,000	£25,600	£16,100	6.3	7.5	463

Gower	£150,000	£105,750	£25,000	£15,900	6.0	6.7	98
Bae Cinmel	£120,000	£98,000	£23,000	£14,600	5.2	6.7	429
Llanddulas	£139,500	£105,000	£24,800	£15,700	5.6	6.7	607
Llandrillo yn Rhos	£139,500	£105,000	£24,800	£15,700	5.6	6.7	607
Llangernyw	£150,000	£105,750	£25,000	£15,900	6.0	6.7	98
Llansanffraid	£160,000	£120,000	£25,600	£16,100	6.3	7.5	463
Llansannan	£176,000	£126,625	£28,800	£18,000	6.1	7.0	134
Llysfaen	£139,500	£105,000	£24,800	£15,700	5.6	6.7	607
Marl	£160,000	£120,000	£25,600	£16,100	6.3	7.5	463
Mochdre	£139,500	£105,000	£24,800	£15,700	5.6	6.7	607
Mostyn	£160,000	£120,000	£25,600	£16,100	6.3	7.5	463
Pandy	£152,000	£117,750	£25,400	£16,000	6.0	7.4	571
Pant-yr-afon / Penmaenan	£160,000	£120,000	£25,600	£16,100	6.3	7.5	463
Penrhyn	£160,000	£120,000	£25,600	£16,100	6.3	7.5	463
Pensarn	£160,000	£120,000	£25,600	£16,100	6.3	7.5	463
Pentre Mawr	£139,500	£105,000	£24,800	£15,700	5.6	6.7	607
Rhiw	£139,500	£105,000	£24,800	£15,700	5.6	6.7	607
Towyn	£120,000	£98,000	£23,000	£14,600	5.2	6.7	429
Trefriw	£150,000	£105,750	£25,000	£15,900	6.0	6.7	98
Tudno	£160,000	£120,000	£25,600	£16,100	6.3	7.5	463
Uwch Conwy	£150,000	£105,750	£25,000	£15,900	6.0	6.7	98
Uwchaled	£139,000	£100,000	£24,600	£15,800	5.7	6.3	77

*LHMA = Asesiad o'r Farchnad Dai Leol

- Cafodd adroddiad ymchwil ar ail gartrefi a chartrefi gwyliau a'r system cynllunio defnydd tir ei baratoi gan Goleg Prifysgol Llundain ar ran Llywodraeth Cymru (2003). Mae'r casgliadau yn yr adroddiad yn datgan fel a ganlyn: 'Mae pryder ynghylch diogelu'r iaith Gymraeg yn y dyfodol mewn ardaloedd lle mae newid economaidd-gymdeithasol yn digwydd yn gyflym, a chredir mai'r pwysau tai allanol yn unig yw prif achos y bygythiad. Nid ydym ni'n credu bod mewnfudo ar ôl ymddeol i mewn i'r ardaloedd hyn, a phrynu ail gartrefi oddi mewn iddynt, ar eu pen eu hunain, yn gyfrifol am ddirywiad yr iaith Gymraeg, ond gallwn ddeall sut a pham fod hyn weithiau'n cael ei bortreadu' (paragraff 7.18). Dylid nodi bod tai haf/ail gartrefi'n gwneud cyfraniad pwysig tuag at yr economi leol ym Mwrdeistref Sirol Conwy, sy'n dibynnu'n helaeth ar y diwydiant twristiaeth. Gall olygu bod cartrefi a fyddai fel arall yn wag yn cael eu defnyddio unwaith eto. Gall perchnogion ail gartrefi helpu i gynnal rai gwasanaethau lleol trwy greu economi twristiaeth.
- Mae'r tabl isod yn dangos, ar y cyfan, mai ychydig iawn o gartrefi gwyliau / ail gartrefi sydd yn ardal y Cynllun ac mae'r ffynhonnell tai hon yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar yr iaith Gymraeg yng Nghonwy.

Tabl 24: Ail Gartrefi a Llety Gwyliau yng Nghonwy (Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001)			
	Yr holl leoedd ar gyfer aelwydydd	Ail gartref / llety gwyliau	
		Nifer	%
Abergele, Towyn a Bae Cinmel	8,543	45	0.5%
Bae Colwyn Mochdre	12,176	96	0.8%
Conwy, Llandudno a Chyffordd Llandudno	16,728	450	2.7%
Llanfairfechan a Phenmaenmawr	2,780	83	3.0%
Llanrwst	1,395	25	1.8%
Ardal Strategaeth Wledig	9,237	376	4.1%
Ardaloedd Gwledig Eraill	638	69	10.8%
Bwrdeistref Sirol Conwy	51,496	1,143	2.2%
Cymru	1,275,816	15,516	1.2%

- Wrth drosi amcanestyniadau aelwydydd yn ofynion anheddau, cymhwysir lwfans ar gyfer anheddau gwag ac ail gartrefi/tai gwyliau o tua 6% i lwfio am gorddiad yn y farchnad dai.

13. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar ysgolion lleol?	
Bygwth / diogelu ysgolion lleol oherwydd cynnydd / gostyngiad yn nifer y disgyblion ar gofrestrau?	Newid y cydbwysedd rhwng disgyblion Cymraeg a di-Gymraeg?

- Ym mlwyddyn ysgol 2010-11, safodd 20.1% o'r disgyblion ysgol yng Nghyfnod Allweddol 2 ac 16% o'r disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 eu harholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd mae 57% o'r ysgolion cynradd ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a 28% o'r ysgolion uwchradd. Ar yr un pryd, dilynodd 82% o'r disgyblion ysgol yn ysgolion Conwy gwrs cydnabyddedig Cymraeg ail iaith.
- Mae cadw pobl ifancach yn eu cymunedau a chynyddiadau yn y gweithlu ynghyd â darparu tai mewn gwahanol ardaloedd hefyd yn gallu effeithio ar y ddarpariaeth addysg. Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â'r Gwasanaethau Addysg i sicrhau nad yw datblygiadau'n arwain at orlethu ysgolion â mwy o ddisgyblion nag sydd o le yn ardal y Cynllun.
- Mae'r broses o gynhyrchu'r CDLI wedi cymryd i ystyriaeth adroddiad Moderneiddio Ysgolion Cynradd y Cyngor. Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth am yr adroddiad ac yn cynnwys Asesiadau o'r Effaith Gymunedol ac Ieithyddol ar gyfer gwahanol leoliadau yn ardal y Cynllun³.

Tabl 25: Y ganran o'r disgyblion ysgol sy'n cyflawni 5 TGAU neu fwy â gradd A*-C			
Blwyddyn	BS Conwy	Cymry	Lloegr
2005-06	49.8%	53.8%	57.5%
2006-07	54.3%	55.0%	60.1%
2007-08	60.4%	58.0%	64.6%
2008-09	62.3%	60.7%	70.0%
2009-10	68.3%	63.7%	76.3%
2010-11	72.7%	67.3%	79.5%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru a www.Education.gov.uk

³ Gweler <http://www.conwy.gov.uk/section.asp?cat=5669&Language=2> am fwy o wybodaeth

- Mae'r tabl canlynol yn rhestru siaradwyr Cymraeg fesul math o ysgol yng Nghonwy. Dylid nodi nad yw'r ciplun hwn o bosib yn cynnwys rhai disgyblion sy'n teithio o'r tu allan i'r Fwrdeistref Sirol i ysgolion yma (yn yr un modd; gall fod hefyd ddisgyblion sy'n teithio i ysgolion eraill mewn Cynghorau cyfagos). Sylwer fod y ffigyrau wedi cael eu talgrynnu am resymau sy'n ymwneud â datgelu ac efallai nad ydynt yn cyfateb yn union â'r cyfansymiau yn y colofnau.

Tabl 26: Dadansoddiad o'r Ffigyrau Siarad Cymraeg o Ddatganiad CYBLD 2011				
Yn Siarad Cymraeg yn Rhugl	Yn Siarad Cymraeg ond Ddim yn Rhugl	Yn Methu â Siarad Cymraeg o Gwbl	Cyfanswm y Disgyblion	Math o Ysgol
435	280	35	750	BB – Cyfanswm Ysgolion Dwyieithog
45	95	100	240	DS – Cyfanswm Ysgolion â Dwy Ffrwd
255	4,540	4,905	9,700	EM – Cyfanswm Ysgolion Saesneg
90	600	1050	1,740	EW – Cyfanswm Ysgolion Saesneg (â chryn dipyn o Gymraeg)
1160	925	1170	3,260	WM – Cyfanswm Ysgolion Cymraeg
1,990	6,445	7,260	15,690	Cyfanswm y Cwbl

14. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar ddarpariaeth gofal iechyd?

Bygwith / diogelu cyfleusterau / gwasanaethau cyfrwng Cymraeg?

- Mae'r Cyngor wedi ymgynghori ynghylch darpariaeth gofal iechyd ac nid oes unrhyw ddarpariaeth newydd wedi cael ei hadnabod.

- Bydd Datganiad Sefyllfa Iechyd yn cael ei baratoi ar gyfer yr archwiliad cyhoeddus a hwnnw'n nodi'r gwaith ymgynghori a wnaed ar y pwnc yma a chytundeb ar strategaeth a dyraniadau safleoedd y CDLI.

15. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau lleol, megis siopau / swyddfeydd post / banciau / tafarndai?	
Bygwth/diogelu siopau / swyddfeydd post / banciau / tafarndai lleol mewn cymunedau Cymraeg, gan felly orfodi rhai carfannau o'r boblogaeth i symud allan o'r ardal / o'r gymuned e.e. yr henoed neu bobl anabl, neu'r to ifanc?	

- Mae MALIC yn cynnwys categori ar gyfer 'mynediad daearyddol at wasanaethau'. Mae'r ACEHI canlynol yn y 10% isaf yng Nghymru ar gyfer y categori hwn:

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru) – Mynediad at Wasanaethau		
ACEHI	Safle yn 2011	Safle yn 2008
Llansannan	42	42
Uwchaled	50	50
Uwch Conwy	68	68
Llangernyw	99	99
Betws yn Rhos	108	108
Eglwysbach	133	133

Nodiadau

System gymharol o fesur yw'r safleoedd; gallwn wybod pa ardaloedd sy'n fwy (neu'n llai) amddifadus na'i gilydd, ond nid o faint. Er enghraifft, os yw ardal A yn y 100fed safle ac ardal B yn y 300fed safle, nid yw'n dilyn bod A deirgwaith yn fwy amddifadus na B. Mae'n amhosib gwybod a yw newid mewn safle'n newid gwirioneddol yn lefel amddifadedd ardal, ynteu a yw wedi deillio o gynnydd neu ostyngiad yn sgorau ardaloedd eraill.

- Mae'r Cyngor wedi paratoi hierarchaeth aneddiadau ar gyfer y CDLI yn seiliedig ar y ddarpariaeth o ran cyfleusterau a gwasanaethau. Mae hon yn ei thro wedi goleuo strategaeth y CDLI a dosbarthiad gofodol datblygiadau (hynny yw, ble y bydd dyraniadau safleoedd yn mynd). Darperir cyfleoedd tai ar draws ardal yr ACLI, gan gynnwys cymunedau gwledig mwy. Mae polisi cynllunio cenedlaethol a lleol yn rhoi anogaeth i ddarparu tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol mewn aneddiadau gwledig llai.
- Mae'r CDLI yn hybu cyfleusterau newydd mewn lleoliadau cynaliadwy ac yn diogelu rhag colli cyfleusterau megis siop bentref unigol yn amodol ar asesiad trylwyr.

16. A fydd y strategaeth o bosib yn arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol o fewn y gymuned Gymraeg?

Cael effaith anghyfartal sylweddol ar wahanol rannau o'r gymuned, gan achosi mantais o bosib i rai grwpiau ac anfantais i eraill?

Tramgwyddo ar werthoedd traddodiadol rhai rhannau o'r gymuned?

- Mae CAIG (2005) yn datgan bod pentrefi gwyliau ar raddfa fawr wedi wynebu protestiadau stwrlyd yn y gorffennol oherwydd eu graddfa mewn perthynas â chymunedau presennol ac am y byddent yn denu mewnfudwyr o aelwydydd di-Gymraeg. Mae'r CDLI yn cydnabod ei bod yn ofynnol ystyried yr effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol (gan gynnwys yr iaith Gymraeg) i gyd yn eu tro ar gyfer unrhyw gynigion newydd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. Mae polisiâu'r CDLI yn caniatáu datblygiadau twristiaeth newydd yn yr ardaloedd strategaeth datblygu trefol a gwledig yn amodol ar asesiad sy'n seiliedig ar yr egwyddorion datblygu, a fyddai'n cynnwys pwynt 2 c) o bolisi DP/4 'Meini Prawf Datblygu' – 'Ni roddir caniatâd cynllunio pe byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol annerbyniol... ar yr iaith Gymraeg'. Mae polisiâu TOU/4 a TOU/5 yn caniatáu safleoedd cabanau gwyliau, carafanau a gwersylla dan amgylchiadau eithriadol yn unig
- Fe wnaeth astudiaeth ymchwil gan Dylan Phillips, a oedd yn dwyn y teitl 'Effeithiau Twristiaeth ar yr Iaith Gymraeg yng Ngogledd-orllewin Cymru' (2001) asesu'r berthynas rhwng twristiaeth, mewnfudiad a dirywiad yr iaith. Er bod yr adroddiad yn cydnabod cyfraniad pwysig twristiaeth i'r economi, roedd yn rhybuddio bod twristiaeth yn yr ugeinfed ganrif yn sbardun i Seisnigeiddio nifer o gymunedau Cymraeg. Roedd tri chwarter y mewnfudwyr a aned y tu allan i Gymru wedi bod ar wyliau yn yr ardal yn flaenorol ac roedd nifer yn berchen ar gartrefi gwyliau neu garafanau yn yr ardal. Roedd

yr adroddiad yn cloi trwy ddatgan y gallai'r diwydiant twristiaeth brofi i fod yn hynod fuddiol i'r iaith Gymraeg, ond y dylid defnyddio'r iaith yn fwy eang o fewn y sector, gan ddod ag elw i ardaloedd Cymraeg a chreu swyddi i'r trigolion.

- Canfu'r astudiaeth meddiannaeth tai a gynhaliwyd yn 2011 mai dim ond 21% o'r trigolion mewn tai newydd yn yr ACLI oedd yn symud o'r tu allan i Gymru. Roedd 13% o'r rhain wedi bod yn byw yn y Fwrdeistref Sirol yn flaenorol ac 16% wedi bod yn byw mewn rhan arall o Gymru. Er mai dim ond ymhlith trigolion tai newydd y cynhaliwyd yr arolwg, yn hytrach na phawb a oedd wedi symud i mewn i'r Sir, mae'n dynodi bod nifer o bobl wedi bod yn byw yn y Fwrdeistref Sirol neu mewn rhannau eraill o Gymru yn flaenorol.

17. A fydd y strategaeth o bosib yn arwain at newidiadau mewn traddodiadau / diwylliannau – Cymraeg - lleol?	
Achosi i aelwydydd – Cymraeg – lleol symud i ffwrdd o'r ardaloedd?	Arwain at gynnydd sylweddol mewn aelwydydd – di-Gymraeg – lleol?
Arwain at erydiad cysylltiadau teuluol neu rwydweithiau cymdeithasol eraill?	Arwain at newidiadau sylweddol i'r cyd-destun economaidd neu gymdeithasol, gan fygwth ffyrdd traddodiadol o fyw?
Effeithio ar aelwydydd – Cymraeg – lleol trwy gyflwyno / gyflymu newid cymdeithasol?	

- Mae'r iaith Gymraeg yn dal i fod yn ffabrig pwysig o ddiwylliant ardal y Cynllun, boed ar ffurf enwau lleoedd, strydoedd, tai neu fusnesau / siopau, neu drwy lenyddiaeth, grwpiau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol a sefydliadau addysgol. Mae nifer o ddigwyddiadau, sefydliadau a grwpiau cymdeithasol sy'n rhan o'r ffabrig Gymraeg sydd wedi gwreiddio mewn nifer o gymunedau yn ardal y Cynllun. Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi enghreifftiau o'r rhain.
- Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru'n wyl gelfyddydol flynyddol sy'n denu dros 160,000 o ymwelwyr y flwyddyn, gan gynnig cymysgedd o gelfyddydau perfformio a gweledol a gweithgareddau i bobl o bob oed. Mae ei lleoliad yn newid bob blwyddyn, a hithau'n ymweld bob yn ail â Gogledd Cymru a De Cymru. Er 1861 mae'r Eisteddfod wedi cael ei chynnal tua 8 gwaith ym Mwrdeistref Sirol Conwy, a'r ymweliad mwyaf diweddar â'r ardal oedd Eisteddfod Abergele ym 1995.

- Mae nifer o Bapurau Bro yn cael eu cyhoeddi yn ardal Conwy. Mae 'Y Gadlas' ar gael ym Mwrdeistref Sirol Conwy a Sir Ddinbych yn yr ardal rhwng Afon Conwy ac Afon Clwyd. Cyhoeddir 'Yr Odyn' ar gyfer ardal Llanrwst, Nant Conwy. Mae 'Y Pentan' yn cael ei ddosbarthu yn Nyffryn Conwy ac ardal arfordirol Conwy / Creuddyn. Mae 'Y Bedol' yn gwasanaethu ardal Cerrigydrudion / Uwchaled a de Sir Ddinbych, gan gynnwys Rhuthun, Llangollen a Chorwen. Yn olaf, mae 'Y Glannau' yn gwasanaethu'r ardal arfordirol o Dreffynnon yn Sir y Fflint i Fochdre yng Nghonwy.
- Mae gan wasg 'Y Lolfa' gyfeiriadur o fudiadau a sefydliadau Cymreig ar ei gwefan, gan gynnwys llyfrwerthwyr, corau, sefydliadau yn y cyfryngau, sefydliadau ym myd y celfyddydau perfformio, sefydliadau crefyddol, cyfieithwyr a bandiau Cymraeg. Mae'r rhestr o gyfeiriadau ar ddiwedd y Papur Cefndir hwn yn cynnwys dolen i'r wefan.
- Mae'r CDLI yn dyrannu tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol ar draws yr ACLI ac yn annog datblygiadau tai fforddiadwy ar raddfa fechan i ddiwallu angen lleol mewn aneddiadau gwledig llai lle na fyddai datblygiadau'n cael eu dyrannu fel arfer (safleoedd eithriadau gwledig). Gall anheddau mentrau gwledig gael eu caniatáu hefyd yn amodol ar lwyddo mewn profion mewn polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol. Yn unol â chanllawiau TAN 6, caiff anheddau mentrau gwledig eu hystyried yn dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol. Gall y mesurau hyn gael effaith gronnus o ran cryfhau cysylltiadau cymdeithasol mewn cymunedau lleol a galluogi pobl ifancach i fyw a gweithio yn eu cymunedau genedigol.

18. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith o bosib ar weithgarwch gwirfoddol / grwpiau ieuenctid?	
--	--

Gorfodi pobl leol sy'n weithgar mewn grwpiau lleol i symud allan o'r gymuned, oherwydd:	
---	--

Cynnydd mewn diweithdra / straen economaidd?	Cynnydd mewn prisiau tai / straen tai?
--	--

- Mae Urdd Gobaith Cymru'n fudiad i blant a phobl ifanc sy'n trefnu ystod o weithgareddau a digwyddiadau ledled Cymru. Fe'i sefydlwyd ym 1922 i roi'r cyfle i blant a phobl ifanc ddysgu a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r mudiad yn agored i siaradwyr Cymraeg rhugl a dysgwyr Cymraeg. Uchafbwynt ei waith bob blwyddyn yw Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, gŵyl gelfyddydau ieuenctid fwyaf Ewrop.
- Mae gwefan yr Urdd yn cynnwys adran ar gyfer ardal Conwy sy'n rhestru eitemau newyddion, gwybodaeth am ddigwyddiadau a chysylltiadau ar gyfer Swyddogion

Datblygu'r ardal. Mae tua 2,700 o aelodau o'r Urdd yn ardal Conwy (Ffynhonnell: Urdd Conwy).

- Mae Merched y Wawr yn fudiad a sefydlwyd ar gyfer menywod ledled Cymru sydd naill ai'n rhugl mewn Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg. Mae dros 280 o ganghennau yng Nghymru ac mae aelodau'n cwrdd ac yn cymdeithasu'n rheolaidd trwy ystod o weithgareddau. Yn ardal Conwy mae canghennau yng Nghyffordd Llandudno, Eglwysbach, Henryd, Llanddoged, Llandudno, Llanrwst, Mochdre, Abergele, Bae Colwyn, Groes, Gwytherin, Hen Golwyn, Llangernyw, Llangwm, Llansannan, Llanfair Talhaiarn, Nantglyn, Pandy Tudur, Pentrefoelas ac Uwchaled. Mae dosbarthiad eang y canghennau'n dangos bod y mudiad yn cwmpasu nid dim ond ardaloedd gwledig traddodiadol Gymraeg BS Conwy ond hefyd yr aneddiadau trefol arfordirol.
- Mae Clwb Ffermwyr Ifanc Cymru'n fudiad ieuenctid gwirfoddol sy'n cynrychioli tua 6,000 o bobl ifanc yng Nghymru wledig. Nid yw aelodaeth wedi'i chyfyngu i ffermwyr yn unig a'r aelodau sy'n penderfynu pa weithgareddau i'w cynnal yn eu priod ganghennau, a all gynnwys gwibdeithiau a digwyddiadau cymdeithasol. Mae canghennau ardal Conwy'n cynnwys Betws yn Rhos, Llanefydd, Llansannan, Pentrefoelas, Uwchaled, Llanrwst a Rowen. Mae'r clybiau hyn yn gweithredu fel mannau cymdeithasol pwysig i bobl ifanc, y mae nifer ohonynt yn siaradwyr Cymraeg a lle mae cyfarfodydd a digwyddiadau'n nodweddiadol yn ddwyieithog neu'n cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae'r Mudiad Ysgolion Meithrin yn fudiad gwirfoddol sy'n amcanu at roi'r cyfle i bob plentyn yng Nghymru elwa o wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ystod o grwpiau ar gael ac mae'r cyfleoedd i blant bach yn aml yn ymestyn i rieni a gwarcheidwaid sy'n gallu chwarae gyda'u plant a chymdeithasu mewn awyrgylch Cymraeg anffurfiol. Mae tua 57 o wahanol grwpiau ledled y Fwrdeistref Sirol (gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri) wedi'u rhestru ar wefan y Mudiad.

Atodiad 2 – Rhestr o Gyfeiriadau a Gwybodaeth Bellach

Stats Conwy

<http://conwy.infobasecymru.net/user/eng>

Y Gwasanaeth Polisi Cynllunio (26 Stryd y Castell, Conwy. LL32 8AY)

Ffôn: 01492 575461

cdll.ldb@conwy.gov.uk

Mae'r dogfennau canlynol yn darparu gwybodaeth gefndir mewn perthynas â'r cynigion yn y Papur Cefndir hwn:

Pobl, Lleuedd, Dyfodol: Cynllun Gofodol Cymru (Diweddariad 2008)

<http://wales.gov.uk/location/strategy/spatial/documents/wsp2008update/?lang=cy>

Polisi Cynllunio Cymru - <http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy>

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Yr Iaith Gymraeg – Cynlluniau Datblygu Unedol a Rheoli Cynllunio

<http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan20/?lang=cy>

TAN 20 drafft Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2011)

<http://wales.gov.uk/consultations/planning/tan20consultation/?lang=cy>

Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005)

<http://www.byig-wlb.org.uk/English/publications/Publications/4241.pdf>

Cynllun Datblygu Lleol Conwy -

<http://www.conwy.gov.uk/section.asp?cat=8698&Language=2>

Astudiaeth o Feddiannaeth Tai Newydd – Bwrdeistref Sirol Conwy (2011)

www.conwy.gov.uk/ldb

Cynllun Datblygu Lleol Conwy: Canllawiau Cynllunio Atodol – Yr Iaith Gymraeg -

www.conwy.gov.uk/ldb

Cynllun Datblygu Lleol Conwy: CCA Rhwymedigaethau Cynllunio - www.conwy.gov.uk/ldp

Strategaeth y Gymraeg 2012-2017 – Iaith fyw: iaith byw (2012)

<http://wales.gov.uk/topics/welshlanguage/policy/living/?lang=cy>

Canllawiau Dylunio Dwyieithog – Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2001)

[http://www.byig-](http://www.byig-wlb.org.uk/english/publications/publications/20090624%20dylunio%20dwyieithog%20-%20bilingual%20design%20guide.pdf)

[wlb.org.uk/english/publications/publications/20090624%20dylunio%20dwyieithog%20-%20bilingual%20design%20guide.pdf](http://www.byig-wlb.org.uk/english/publications/publications/20090624%20dylunio%20dwyieithog%20-%20bilingual%20design%20guide.pdf)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Enwi Strydoedd – Cyfarwyddyd ar y Drefn -

<http://www.conwy.gov.uk/doc.asp?cat=4635&doc=20945>

LANDMAP - <http://www.ccw.gov.uk/landscape--wildlife/protecting-our-landscape/landmap.aspx>

Seminar Cynllunio a'r Iaith Gymraeg gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol – TAN 20
Papur Safbwynt Cyfreithiol:

<http://www.rtpi.org.uk/media/3216/Cyflwyniad-OW-Eisteddfod-2011.pdf>

Mynegai Amddifadedd Lluosog:

<http://wales.gov.uk/topics/statistics/theme/wimd/?lang=cy>

Adroddiad Dyfodol Economaidd:

<http://www.anglesey.gov.uk/upload/public/attachments/52/pp89108finalreportNWWeconferences1.pdf>

I gael mwy o wybodaeth am yr iaith Gymraeg gan gynnwys grwpiau a mentrau yng Nghonwy:

Bwrdd yr Iaith Gymraeg / Welsh Language Board - www.byig-wlb.org.uk

Ystadegau ar gyfer Cymru - <http://wales.gov.uk/topics/statistics/?lang=cy>

Cyrsiau yn y Gymuned:

<http://www.conwy.gov.uk/doc.asp?cat=6583&doc=24511&Language=2>

Dolenni Dysgu Oedolion: <http://www.conwy.gov.uk/section.asp?cat=4829&Language=2>

Cynllun grantiau'r Cyngor ar gyfer darparu arwyddion dwyieithog:

<http://www.conwy.gov.uk/dratozdetail.asp?cat=2841&doc=1119&azkey=g&azid=427>

Deddf yr Iaith Gymraeg

Fe osododd Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) ieithoedd Cymraeg a Saesneg ar sail gydradd mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar y sector cyhoeddus i drin Cymraeg a Saesneg yn gyfartal, wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, yn rhoi hawl lwyr i siaradwyr Cymraeg siarad Cymraeg yn y llys ac i fe sefydlodd Fwrdd yr Iaith Gymraeg i oruchwyllo'r modd y cyflawnir yr addewidion hyn ac i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg.

<http://www.byig-wlb.org.uk/English/publications/Publications/523.pdf>

Bwrdd yr Iaith Gymraeg / Welsh Language Board

<http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120330000532/http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/Pages/index.aspx>

Urdd Gobaith Cymru – ardal Conwy. Mae'r wefan yn rhestru newyddion, gwybodaeth gyswllt a digwyddiadau i blant a phobl ifanc yng Nghonwy. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau chwaraeon a thros 10 o Eisteddfodau lleol a gynhelir rhwng Mawrth ac Ebrill 2011.

<http://www.urdd.org/croesoardal.php?rhan=4>

Menter Iaith Conwy - www.mentrauiath-gogledd.com/cym/conwy.html

Merched y Wawr - <http://www.merchedywawr.co.uk/home.link>

Mudiad Ysgol Meithrin - <http://www.mym.co.uk/index.cfm?alias=home>

Clwb Ffermwyr Ifanc Cymru - <http://www.yfc-wales.org.uk/>

Y Lolfa - <http://www.ylolfa.com/cyfeiriadur3.php>

Atodiad 3 – Rhestr o Ddangosyddion Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (wedi'u copïo o adroddiad Ymchwil Gorfforaethol MALIC).

Incwm

- Y ganran sy'n derbyn budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm
- Y ganran mewn aelwydydd sy'n derbyn Credydau Treth ag incwm o lai na 60% o'r canolrif ar gyfer Cymru
- NASS-ceiswyr lloches a gynhelir

Cyflogaeth

- Y ganran sy'n derbyn budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth

Iechyd

- Nifer yr achosion o ganser
- Y gyfradd marwolaeth o bob achos
- Canran y genedigaethau unigol byw < 2.5kg
- Afiechyd hirdymor cyfyngol

Addysg

- Sgorau pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 2
- Sgorau pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 3
- Sgorau pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 4
- Y ganran o'r bobl nad ydynt yn camu ymlaen i addysg uwch pan fônt yn 18-19
- Y ganran o'r oedolion 25-59/64 heb unrhyw gymwysterau
- Canran yr absenoldebau am hanner diwrnod mewn ysgolion cynradd
- Canran yr absenoldebau am hanner diwrnod mewn ysgolion uwchradd

Tai

- Y ganran o'r boblogaeth mewn aelwydydd heb wresogi canolog
- Y ganran o'r boblogaeth sy'n byw mewn aelwydydd gorlawn

Yr amgylchedd ffisegol

- Allyriadau i'r aer
- Ansawdd aer

- Perygl llifogydd
- Agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a diwydiannol

Mynediad at wasanaethau

- Amser cyfartalog siwrne bws + cerdded i'r mannau canlynol:
 - Deintydd
 - Siop fwyd
 - Meddyg Teulu
 - Canolfan hamdden
 - Llyfrgell
 - Swyddfa'r Post
 - Ysgol gynradd
 - Ysgol uwchradd
 - Arhosfa cludiant

Diogelwch cymunedol

- Canran y troseddwyd sy'n oedolion
- Byrgleriaeth a gofnodwyd gan yr heddlu
- Difrod troseddol a gofnodwyd gan yr heddlu
- Nifer yr achosion o dân
- Lladradau a gofnodwyd gan yr heddlu
- Troseddau treisgar a gofnodwyd gan yr heddlu
- Canran y troseddwyd ifainc